# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

Dyddiad ac Amser

**10:30 y.b., DYDD IAU, 12FED MEHEFIN, 2025**

**NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10:00YB**

Lleoliad

**Cyfarfod Hybrid - Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Iwan Edwards**

**01286 679665**

**Iwanedwards@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 4 Mehefin 2025)

## PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

**AELODAETH (18)**

### Plaid Cymru (12)

Y Cynghorwyr

Menna Baines
Linda Morgan
Meryl Roberts
Jina Gwyrfai
Sian Williams
Elin Walker Jones
Rheinallt Puw
Gwynfor Owen
Einir Wyn Williams
John Pughe
Berwyn Parry Jones
Geraint Wyn Parry

### Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones
Eryl Jones-Williams
Angela Russell
Anwen J. Davies
Beth Lawton

### Llafur/Rhyddfrydol (1)

Gareth Coj Parry

### Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

### Aelodau Eraill a Wahoddwyd

Y Cynghorydd Dilwyn Morgan
Y Cynghorydd Menna Trenholme
Y Cynghorydd Paul John Rowlinson

# R H A G L E N


**1. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2025 / 2026

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2025 / 2026

**3. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried

**6. COFNODION** 5 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 3 Ebrill 2025 fel rhai cywir

**7. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET TAI AC EIDDO (10:30 - 11:45)** 12 - 44

Adroddiad I'r Pwyllgor Craffu ar berfformiad yr Adran Tai ac Eiddo

**8. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD (11:45 - 13:00)** 45 - 73

Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu ar berfformiad yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

**9. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET OEDOLION, IECHYD A LLESIANT (14:00 - 15:15)**

Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu ar berfformiad yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**
**03/04/2025**

**Presenoldeb:**

**Y Cynghorwyr:**
Beth Lawton (Cadeirydd), Jina Gwyrfai, Elwyn Jones, Eryl Jones-Williams, Sian Williams, Rheinallt Puw, Gwynfor Owen, Menna Baines, Gareth Coj Parry, Berwyn Parry Jones a Anwen J. Davies

**Swyddogion yn bresennol:**
Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Iwan Edwards (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5:**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Aelod Cabinet Tai ac Eiddo), Carys Fon Williams (Pennaeth Adran Tai ac Eiddo), Hedd Morlais Glyn Tomos (Pennaeth Cynorthwyol Adran Tai ac Eiddo) a Sion Elwyn Hughes (Uwch Swyddog Gweithredol Tai ac Eiddo)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:**
Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant) ac Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Mannon Emyr Trappe (Pennaeth Cynorthwyol Diogelu, Sicrwydd Ansawdd, Iechyd Meddw a Diogelwch Cymunedol),

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**
Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant), Menna Trenholme (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol). Aled Gibbard (Pennaeth Cynorthwyol Plant a Chefnogi Teuluoedd) a Lucy Hemmings (Arweinydd Ymarfer Awtistiaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Angela Russell, Linda Morgan, Meryl Roberts a Einir Wyn Williams

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Gwynfor Owen ar eitemau 6 a 7. Fe adawodd y cyfarfod am yr eitemau yma.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 20 Chwefror, 2025 fel rhai cywir.

## 5. CYNLLUN GWEITHREDU TAI

Cyflwynwyd - adroddiad gan yr aelod cabinet dros Dai ac Eiddo yn rhoi diweddariad ar gynnydd y Cynllun Gweithredu Tai. Esboniwyd fod cynyddu cyflenwad o dai i bobl leol, sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd ac ymdrin â'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd yn flaenoriaeth o fewn Cynllun y Cyngor. Eglurwyd fod y Cynllun bellach hanner ffordd drwy ei fywyd ac felly ei fod yn amserol i roi diweddariad i'r Pwyllgor ac i adolygu'r cynllun.

Cyfeiriwyd at adran tri o'r adroddiad sydd yn cynnwys crynodeb byr o faterion allweddol y cynllun a thabl sydd yn rhoi trosolwg o brif ffigyrau cynnydd y Cynllun. Eglurwyd mai'r nod, yn gyffredinol, oedd darparu 1,966 o unedau a bellach mae dros 830 wedi eu cwblhau - sydd yn 42% o'r nod. Yn ogystal, nodwyd fod hyn wedi helpu 15,500 o unigolion o Wynedd. O ran gwario'r gyllideb o 152 miliwn, cadarnhawyd eu bod wedi gwario dros 60 miliwn. Credwyd fod y ffaith eu bod bron wedi cyflawni hanner y cynllun yn dangos yn bendant eu bod ar y trywydd iawn.

Cydnabuwyd fod y Cynllun wedi wynebu heriau ar hyd y daith e.e. dwy flynedd gyntaf y Cynllun o ganlyniad i sgil-effeithiau'r pandemig a 'Brexit'. Yn ogystal, esboniwyd tra eu bod wedi llwyddo i brynu tai yn gyflym, mae'r adnewyddu wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl oherwydd diffyg adnoddau a chontractwyr. Ar ben hyn, mae cyfraddau llog, costau adeiladu a chostau byw i gyd wedi cynyddu'n sylweddol ers dechrau'r Cynllun. Er hyn, pwysleisiwyd eu bod yn ffyddiog bod prosiectau'r Cynllun ar drac i gyflawni'r uchelgais a osodwyd ar ddechrau'r Cynllun ac o fewn y cyfnod amser.

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol ar 'Powerpoint' yn dangos beth yw cynnydd ac effaith y cynllun hyd yn hyn. Eglurwyd fod pum maes i'r Cynllun. Y cyntaf yw sicrhau fod neb yn ddigartref yng Ngwynedd. Eglurwyd fod y Cyngor yn ceisio helpu pobl ddigartref Gwynedd drwy agor mwy o lety a darparu mwy o gefnogaeth. Fel enghraifft, dangoswyd llun o lety sydd bellach wedi gorffen cael ei adeiladu yn Nolgellau yn 2023 ac wedi'i adeiladu gan ddefnyddio cerrig yr hen ysgol. Soniwyd fod yr adeilad wedi'i restru ar gyfer Gwobrau 'Inside Housing' llynedd.

Adroddwyd hefyd fod bwriad i addasu'r hen Adeilad y Goron yng Nghaernarfon er mwyn creu hyd at 40 o fflatiau hunangynhaliol llety a chefnogaeth. Eglurwyd fod yr adeilad wedi'i brynu ym mis Mawrth 2024 a bod y pensaer wrthi'n gwneud y dyluniadau terfynol. Soniwyd fod bwriad i drefnu ymweliad i Aelodau yn yr wythnosau nesaf iddynt gael y cyfle i fynd o gwmpas yr adeilad.

Cyflwynwyd yr ail faes, sef cynyddu'r cyfleoedd i gael tenantiaeth fforddiadwy gan gyfeirio at gynllun cefnogi'r rhaglen adeiladu tai cymdeithasol, sydd o fewn y maes yma. Nodwyd eu bod yn cydweithio gyda phartneriaid,y Cymdeithasau Tai, i godi tai fforddiadwy ar draws y sir ac yn rheoli Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru trwy flaenoriaethu'r Rhaglen Adeiladau.

Soniwyd fod cynlluniau tai gwag yn dyrannu grantiau a benthyciadau i ddod a thai gweigion yn ôl i ddefnydd. Nodwyd fod cynnydd mewn costau adeiladau wedi achosi newid yn y cynllun yma gyda grantiau o hyd at £20,000 nawr ar gael, i fyny o £15,000 ar ddechrau'r cynllun. Yn ogystal, eglurwyd fod y cynllun hefyd wedi'i addasu er mwyn sicrhau ei fod ar gael i fwy o bobl.

I gloi'r cyflwyniad, rhoddwyd trosolwg ar y gyllideb ychwanegol fydd ar gael i'r cynllun wrth symud ymlaen. Esboniwyd bydd y premiwm ychwanegol yma yn cael ei ddyrannu i'r pum maes gwahanol o fewn y cynllun, e.e. £2.7 miliwn ychwanegol i Lety a Chefnogaeth a £2.1 miliwn i Fân-ddaliadau.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â'r cynllun i addasu Adeilad y Goron yng Nghaernarfon sef ble fydd tenantiaid yr adeilad yn parcio. Mewn ymateb,eglurwyd fod yna faes parcio dau lawr dros y ffordd i'r adeilad a fydd ar gael i denantiaid yr adeilad.

Holwyd os yw cwmni 'Adferiad' yn rhywbeth i wneud efo 'Tŷ Adferiad' ym Mhorthmadog ac a oes posib cael mwy o fanylion am 'Tŷ Adferiad'. Mewn ymateb, nodwyd:

- Ei bod yn fwy na pharod i gael trafodaeth un i un gyda'r aelod i egluro yn union be sydd yn digwydd 'Tŷ Adferiad' a gwahoddwyd yr aelod i ymweld â'r safle . Pwysleisiwyd ei fod yn gynllun ardderchog.

Nododd yr aelod nad oedd wedi gweld rhywbeth yn y Cynllun yn cyfeirio at helpu pobl a oedd yn cael trafferthion talu morgeisi. Credwyd y byddai ychydig o gymorth i'r bobl yma yn rhwystro'r trafferthion ac yn helpu i leihau'r galw am dai yn y sir.

Mewn ymateb, nodwyd:

- Ei fod yn rhywbeth mae awdurdodau lleol wedi bod yn edrych arno yn genedlaethol. Esboniwyd bod gan Lywodraeth Cymru becyn achub morgeisi ac mae'r adran yn cyfeirio pobl at wahanol asiantaethau sydd yn medru rhoi cymorth ond nid oes ganddynt gynllun penodol i helpu gyda morgeisi.

Cyfeiriodd yr aelod at bwynt 3a o'r adroddiad sef Cynllun Tŷ Gwynedd gan nodi ei bryder gyda chynnydd y Cynllun. Nodwyd nad oes datblygiad sylweddol wedi bod gyda'r tri safle hyd yn hyn, a dim ond £360,000 sydd wedi'i wario o'r £9 miliwn o gyllideb. Cyfeiriwyd at ddatblygiad arall ym Mangor gan Gymdeithas Tai a ganiatáwyd o gwmpas yr un amser. Nodwyd fod y stad Cymdeithas Tai bellach wedi ei adeiladu a bod pobl yn byw ynddynt erbyn hyn. O ganlyniad i'r pryder nododd yr hoffai weld adolygiad o'r cynllun.

Mewn ymateb, nodwyd:

- Eu bod yn hapus i rannu'r model a'r costau gyda'r Pwyllgor yn ei gyfanrwydd er mwyn i'r aelodau gael gweld y gwahaniaeth rhwng y Cynllun Tŷ Gwynedd a datblygiadau Chymdeithasau Tai.
- Derbyniwyd fod cynnydd yn y datblygiadau wedi bod yn araf. Esboniwyd fod problemau gydag isadeiledd, draeanau ac ynni wedi cyfrannu at yr oedi yma. Er hyn, nodwyd ei fod yn brosiect sydd yn boblogaidd iawn a gyda diddordeb sylweddol gan bobl i brynu tai drwy'r cynllun. Soniwyd eu bod nhw dai newydd, braf, gynaliadwy ac yn defnyddio ynni effeithiol.

Gofynnwyd a fyddai'r r adran yn fodlon ail edrych ar y Cynllun Tŷ Gwynedd er mwyn cael sicrwydd ei fod yn rhywbeth y dylai'r Cyngor wneud ac os yw'n werth yr arian. Mewn ymateb, nododd yr aelod cabinet tai ac eiddo:

- Ei fod yn hapus i drafod y Cynllun efo'r Pennaeth adran a gweddill y Swyddogion i ystyried y pwyntiau a godwyd.

Mynegwyd pryder gyda thai gwag yng Ngwynedd. Gofynnwyd a fyddai'r Cyngor yn ystyried cyflogi gweithwyr ei hunain i wneud gwaith mewn ardaloedd ble does dim contractwyr ar gael. Mewn ymateb, nodwyd:

- Bod yr adran wedi defnyddio gweithwyr mewnol ble maent wedi dod a thai gwag yn ôl i ddefnydd. Soniwyd y byddai yn rhywbeth gall yr adran ystyried yn y dyfodol.

  Holwyd am eglurhad ar y Cynllun Tai Gwag, yn benodol os mai blwyddyn o brofiant yr ewyllys sydd angen i fod yn gymwys ar gyfer yr eithriad. Ymhellach, nodwyd fod 123 o eithriadau wedi cael eu cymeradwyo yn chwarter olaf blwyddyn ddiwethaf a holwyd sut mae hyn yn cymharu i'r cyfnod cynt. Ar ben hyn, gofynnwyd a yw'n realistig i ystyried estyniad i'r flwyddyn mae pobl yn cael i gyflawni'r gwaith adfer. Mewn ymateb, nodwyd:

  - Bod y Cynllun Tai Gwag yn un poblogaidd iawn.
  - O ran faint o eithriadau sydd wedi cael eu cymeradwyo dros gyfnod y cynllun, soniwyd bod y nifer wedi bod yn eithaf cyson. Cadarnhawyd y byddai'n ceisio cael y ffigyrau pendant a'i adrodd yn ôl i'r pwyllgor.
  - Cadarnhawyd y byddai'r adran yn edrych ac ystyried estyniad i'r 12 mis mae pobl yn cael i gyflawni gwaith adfer.

  Llongyfarchodd yr Aelod yr Adran am ei gwaith gwych, yn enwedig gyda'r maes Tai Teg ble mae'r adran dros ei tharged yn barod ac wedi gwario chwarter y cyllid. Holwyd os fydd cynlluniau i osod targedau newydd a pharhau'r pethau sydd yn gweithio yn dda yn y cynllun presennol. Mewn ymateb, nodwyd:

  - Bydd y cynllun yn estyn am ddwy flynedd a bydd y targedau yn cael eu haddasu hefyd, felly ni fydd y targedau gwreiddiol yn parhau.

  Holwyd os yw'n bosibl casglu data am ymgeiswyr sydd yn siarad Cymraeg er mwyn monitro'r sefyllfa yn y dyfodol. Mewn ymateb, nodwyd:

- Bod yr adran yn derbyn cyngor cyfreithiol ar hyn o bryd o ran yr elfen ieithyddol yn y polisi gosod tai a bod trafodaethau yn parhau. Soniwyd eu bod wedi mynd i'r eithaf posib o ran yr elfen gosod i bobl leol a beth sydd yn bosib i'r adran wneud.

  Tynnwyd sylw at 1ch o'r adroddiad sef y pecyn landlordiaid preifat ac i 3ng sef y prosiect Helpu i Werthu'n lleol. Gofynnwyd am ddiweddariad ar gynnydd y ddau brosiect yma. Mewn ymateb, nodwyd:

  - Bod y cynllun Pecynnau Cefnogaeth i Landlordiaid Preifat yn un poblogaidd iawn a bod hi'n braf cael adrodd fod y cynllun wedi rhoi cymorth i 64 o unigolion hyd yn hyn.
  - Eglurwyd fod Cyngor Gwynedd yn un o'r cynghorau sydd gwneud y defnydd mwyaf o'r Pecynnau dros Gymru gyfan.

  Nododd yr Aelod ei fod yn cynrychioli ardal eithaf gwledig ac yn gweld o'r cynlluniau fod y datblygiadau dan sylw mewn ardaloedd mwy poblog. Gofynnwyd os yw'r adran yn ystyried cymunedau mwy gwledig ar gyfer y datblygiadau. Nodwyd y byddai o fudd i ysgolion bychain ble mae'r niferoedd yn disgyn. Mewn ymateb, nodwyd:

  - Bod yr adran yn ystyried pob cymuned yng Ngwynedd ac yn ceisio sicrhau fod y cyflenwad tai yn cyfateb i'r angen am dai.

  Nodwyd fod niferoedd digartrefedd yn parhau i fod yn uchel a gofynnwyd a yw'r galw yn amrywio ar draws y sir. Mewn ymateb, nodwyd:

  - Bod y galw am dai yn amrywio ar draws y sir ond nad oes unrhyw ardal yn y sir ble nad oes dim galw mawr am dai

  Nodwyd fod problem mawr gyda tan-feddiannaeth yng Ngwynedd gyda dros 1,000 o bobl yn byw mewn tai efo mwy o ystafelloedd gwely nag ystyrir yn angenrheidiol. Holwyd

os oes rhywbeth gellir ei wneud i gymell bobl i symud i dai mwy addas. Mewn ymateb, nodwyd:

- Nad yw'r Cyngor yn medru gorfodi pobl i symud o'i tai ond fod gwaith yn cael ei wneud i drio perswadio pobl i symud i dai fwy addas. Eglurwyd fod hyn yn helpu'r bobl fydd yn symud gan nad ydynt wedyn yn gorfod talu treth llofftydd a y mae'n rhyddhau'r tai i deuluoedd sydd wir angen mwy o le.

**PENDERFYNIAD**

**a) Derbyn yr adroddiad**
**b) Gofyn i'r aelod cabinet ail edrych ar y cynllun Tŷ Gwynedd er mwyn ystyried os yw'n darparu gwerth am arian ac a ddylid buddsoddi'r arian mewn prosiect arall o fewn y Cynllun Gweithredu Tai.**

**6. GWASANAETH IECHYD MEDDWL GWYNEDD**

Cyflwynwyd adroddiad gan yr aelod cabinet dros Oedolion, Iechyd a Llesiant yn rhoi diweddariad ar gynnydd y model waith newydd y Gwasanaeth Iechyd Meddwl. Nodwyd fod adroddiad wedi ei gyflwyno i'r pwyllgor nol ym mis Mehefin 2023 gyda chynlluniau i ddod a'r Tîm Integredig gyda'r Bwrdd Iechyd i ben a chreu model gwaith newydd. Esboniwyd fod y Gwasanaeth Cymdeithasol Iechyd Meddwl wedi'i sefydlu ym mis Mai 2024 ac mae'r gwasanaeth wedi bod yn gweithredu ers bron i flwyddyn erbyn hyn.

Nodwyd bod sefydlugwasanaeth o'r newydd yn golygu fod gweithwyr cymdeithasol iechyd meddwl a gyflogir gan y Cyngor yn darparu gwasanaeth iechyd meddwl a chymdeithasol o fewn y gymuned gan ganolbwyntio ar beth sy'n bwysig i'r unigolyn ac ar adferiad. Soniwyd fod y gwasanaeth bellach yn cyfarch dyletswyddau statudol y Cyngor ac yn canolbwyntio ar y bedair elfen o'r ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Eglurwyd fod y timau wedi'i rannu i ardaloedd Arfon a De Gwynedd gyda'r tîm Arfon wedi'i leoli yn Pencadlys a'r tîm De Gwynedd wedi'i leoli yn safle Galw Gwynedd. Dywedyd bod lleoli y swyddfeydd yn y Cyngor wedi bod yn gam cadarnhaol gan fod hyn yn gwneud cyd weithio gyda gwasanaethau eraill yn yr adran a'r Cyngor yn llawer haws. Nodwyd fod y tîm yn cyflogi dau uwch weithwyr ar gyfer y gwasanaeth ac fod y buddsoddiad sylweddol yma wedi bod yn allweddol i sicrhau bod y gwasanaeth mewn sefyllfa i gyfarch anghenion unigolion yn amserol.

Adroddwyd fod Arolwg Cenedlaethol Cymru wedi datgan bod disgwyl gweld cynnydd mewn achosion anhwylder iechyd meddwl cyffredinol fel gorbryder ac iselder rhwng rŵan a 2040. Yn ogystal, nodwyd fod yr arolwg yn dangos fod gostyngiad cyffredinol mewn llesiant meddyliol a bod yr angen am gefnogaeth yn debygol o gynyddu. Nodwyd fod astudiaeth hefyd yn dangos fod mwy o bobl ifanc wedi profi mwy o bryder ers y pandemig COVID. Eglurwyd fod 439 o unigolion yn agored i'r gwasanaeth ar hyn o bryd.

Soniwyd eu bod wedi cynnal sawl cyfarfod i ymgynghori a'r gweithlu i drafod y ffordd orau ymlaen i ail fodelu'r gwasanaeth. Nodwyd bod y gweithlu yn allweddol i sicrhau bod gweithdrefnau cadarn yn ei lle ar gyfer y gwasanaeth newydd. Dywedwyd hefyd eu bod wedi rhoi cyfle i  Uwch Rheolwyr Betsi Cadwaladr i roi mewnbwn ond ni dderbyniwyd ymateb.

Nodwyd eu bod hi'n agosáu at flwyddyn ers i'r gwasanaeth agor felly mae bwriad i anfon holiaduron i unigolion sydd wedi neu yn parhau i dderbyn cefnogaeth gan y gwasanaeth. Esboniwyd y bydd y canfyddiadau yma yn llywio datblygiad y gwasanaeth ac mae gwybodaeth anegdotol yn nodi bod unigolion yn teimlo ei bod hi'n hawdd cysylltu â'r gwasanaeth a bod modd cael asesiad yn fuan. Teimlwyd fod ail fodelu'r gwasanaeth wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar lesiant staff yr adran ac maent yn teimlo fod person yn dod gyntaf yn lle'r broses, ac yn teimlo eu bod yn perthyn i'r Cyngor.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Nodwyd fod y nifer o asesiadau gofalwyr yn 12 a holwyd os yw'r niferoedd yma yn isel o feddwl fod 439 o achosion yn agored. Fel ail gwestiwn, gofynnodd yr aelod pa ymgynghoriad a wnaed gyda defnyddwyr y gwasanaeth cyn ail fodelu. Mewn ymateb, nodwyd:

- Eu bod yn cydnabod fod y nifer o asesiadau gofalwyr yn isel a bod gwaith yn mynd ymlaen ar hyn o bryd i drio cynyddu'r niferoedd.
- Nad oeddent wedi ymgynghori â defnyddwyr y gwasanaeth ar y pryd ond fod bwriad i gael barn yr unigolion am y gwasanaeth yn y dyfodol.

Gofynnwyd os yw'r adran yn rhagweld bod y tîm sydd mewn lle ar hyn o bryd yn ddigon mawr i ddelio gyda heriau'r dyfodol. Hefyd, holwyd am enghreifftiau o'r partneriaid trydydd sector sydd yn cydweithio gyda'r adran. Mewn ymateb, nodwyd:

- Eu bod yn rhagweld bod y galw am wasanaeth am gynyddu dros y blynyddoedd nesaf ac eu bod yn edrych ar ffyrdd amgen i gefnogi unigolion. Esboniwyd fod y tîm eisoes efo grwpiau sydd yn cefnogi unigolion sydd yn golygu fod sawl person yn cael gofal yr un pryd. Ar ben hyn, nodwyd fod yr adran yn edrych ar welliannau technoleg i drio cyfarch y cynnydd yn y galw i'r dyfodol.
- Eu bod yn cydweithio'n agos gyda'u partneriaid trydydd sector fel Canolfan Felin Fach a Tan y Maen.

Gofynnwyd os oes angen canolbwyntio mwy ar waith ataliol er mwyn ceisio dod a'r niferoedd sydd angen gwasanaeth i lawr. Mewn ymateb, nodwyd:

- Bod hynny'n rhan mawr o'r gwaith mae'r tîm yn ei wneud. Esboniwyd fod y grwpiau sydd yn cael ei sefydlu rwan yn mynd i gefnogi'r gwaith hynny ar gyfer y dyfodol.

Gofynnwyd am esboniad beth yw'r rôl y Cyngor a beth yw rôl y Bwrdd Iechyd yn y model newydd. Mewn ymateb, nodwyd:

- Bod y Tîm Iechyd Meddwl yn canolbwyntio ar yr elfen gymdeithasol o'r angen iechyd meddwl ble mae'r Bwrdd Iechyd yn delio gyda'r ochr glinigol. Esboniwyd fod pobl yn medru cyfeirio eu hunan at y gwasanaeth newydd neu yn medru cael eu cyfeirio gan berson arall os oes caniatâd. Ar ben hyn, mae'r tîm yn derbyn cyfeiriadau gan asiantaethau gwahanol eraill hefyd.
- Gofynnwyd cwestiwn ychwanegol yn holi sut mae'r adran yn hysbysebu eu gwasanaeth. Eglurwyd bod gwybodaeth ar mewnrwyd Cyngor Gwynedd a hefyd mae meddygon teulu yn medru rhoi gwybodaeth i bobl.

**PENDERFYNIAD**
**Derbyn yr adroddiad**

**7. ADRODDIAD CYNNYDD AR RAGLEN WAITH TIM AWTISTIAETH**

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod Cabinet Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Nodwyd fod yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu yn 2023 ar y Cynllun Awtistiaeth. Eglurwyd fod Grŵp Tasg a Gorffen wedi'i sefydlu o ganlyniad i'r angen i edrych yn fwy manwl ar y cynllun. Cyflwynwyd canfyddiadau'r Grŵp Tasg a Gorffen i'r Pwyllgor Craffu yn Ebrill 2024 a phenderfynwyd gofyn am adroddiad cynnydd mewn blwyddyn.

Nodwyd fod y Tîm Awtistiaeth bellach wedi ymsefydlu'n dda ac wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Eglurwyd fod y Tîm wedi'i sefydlu i geisio mynd i'r afael ar fwlch mewn gwasanaeth ble nad oedd unigolion awtistig yn cyfarfod meini prawf rhai gwasanaethau.

**PENDERFYNIAD**

a) **Derbyn yr adroddiad.**
b) **Annog yr Aelodau Cabinet i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn holi am arian parhaol i'r Tîm Awtistiaeth.**

## 8. GRŴP CRAFFU CYD-BWYLLGOR IECHYD A GOFAL CANOLBARTH Cymru

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu yn rhoi cefndir ar y Grŵp Craffu Cyd-Bwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru. Nodwyd mai pwrpas yr adroddiad yw gofyn i'r aelodau ethol aelod i gynrychioli'r Pwyllgor Craffu ar Grŵp Craffu Cyd-Bwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru.

**PENDERFYNIAD**
**Ethol Y Cynghorydd Beth Lawton i gynrychioli'r Pwyllgor ar Grŵp Craffu Cyd-Bwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru.**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD** | 12 Mehefin, 2025 |
| **TEITL** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Tai ac Eiddo |
| **AWDUR** | Carys Fôn Williams, Pennaeth Tai ac Eiddo |
| **AELOD CABINET** | Cyng. Paul Rowlinson |

## 1. Pam fod angen ei graffu?

Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor gael eu bodloni fod gennyf i, yr Aelod Cabinet Tai ac Eiddo, afael ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

## 2. Cefndir / Cyd-destun

### 2.1 Cefndir / Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Tai ac Eiddo. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor; gwaith dydd i ddydd yr Adran; ynghyd â'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd a wnaed hyd at ddiwedd Ebrill 2025. Mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod herio perfformiad, ac rwyf yn fodlon gyda pherfformiad yr Adran.

### 2.2 Rhesymeg a chyfiawnhad

**Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor**
Mae cynnydd yn erbyn y cerrig milltir a osodwyd i brosiectau'r Adran o fewn blaenoriaeth wella Gwynedd Glyd a Gwynedd Effeithlon i'w gweld yn Atodiad 1.

Ar y cyfan, mae'r cynnydd yn dda, gyda sawl carreg filltir wedi'i chyrraedd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, a hynny dan amgylchiadau heriol. Hoffwn dynnu sylw at rai yn benodol (gyda'r rhifau yn cyfateb i'r rhifau yn y tabl yn Atodiad 1):

**Gwynedd Glyd: Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol**

1. Mae'r uchelgais a osodwyd i godi 330 o dai cymdeithasol trwy'r Rhaglen Adeiladu Tai Cymdeithasol a'r bartneriaeth gyda'r Cymdeithasau Tai wedi'i gyrraedd a'i basio, gyda 386 o unedau wedi'u hadeiladu bellach, sydd wedi helpu bron i 1,300 o bobl.
2. Mae cynllun Tŷ Gwynedd yn gwneud cynnydd boddhaol, gyda dau o'r datblygiadau yn y cam adeiladu – safle hen lyfrgell Llanberis, a hen safle Ysgol Babanod Coed Mawr, Bangor. Rydw i'n falch o adrodd felly bod hyn yn unol â'r uchelgais a osodwyd, a bydd mwy o safleoedd yn y cam adeiladu i'w gweld yn ystod y flwyddyn nesaf.

4. Mae’r cynlluniau tai gwag sydd gan yr Adran yn hynod lwyddiannus, gyda 108 o dai gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd bellach trwy gymorth grantiau i brynwyr tro cyntaf ac, yn sgil newidiadau i’r cynllun, i bob math o brynwr ers Medi 2024.

**Gwynedd Glyd: Ymdrin efo’r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd**

1. Mae sicrhau bod trigolion y sir yn gwneud y mwyaf o’r cynlluniau tlodi tanwydd yn flaenoriaeth er mwyn cefnogi rhai o bobl fwyaf bregus ein sir. Mae 216 o geisiadau ECO4 wedi’u cymeradwyo dros y deufis diwethaf (Mawrth ac Ebrill), gyda 25 tŷ yn gweld gwelliant yn eu tystysgrif perfformiad ynni. Dros gyfnod y cynllun i gyd, mae 753 o dai wedi gweld cynnydd yn eu perfformiad ynni (gellir darllen mwy am hyn ym mesurydd Tai 13, Atodiad 2).
3. Mae’r gwasanaeth yn helpu cannoedd o bobl gyda’u sefyllfa ynni, ac mae talebau ynni yn rhan fawr o’r gefnogaeth honno. Dosbarthwyd 656 o dalebau ynni gwerth £24,719 i drigolion mewn angen sydd ar fesurydd rhag-dalu. Ers dechrau’r cynllun mae 5,671 o dalebau ynni wedi’u rhannu, sydd wedi helpu pobl Gwynedd yn uniongyrchol.

**Gwynedd Glyd: Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd**

1. Cwblhawyd 20 Ffordd yr Ala yn yr hydref 2024, ac mae tenantiaid eisoes yn derbyn cefnogaeth yno. Cwblhaodd Adra waith adeiladu 137 Stryd Fawr Bangor a bydd tenantiaid yn symud i mewn yno yn fuan yn yr wythnosau nesaf.
4. Prynwyd adeilad Penrallt yn 2024, ac mae gwaith ar y gweill i baratoi cais cynllunio ar gyfer trosi’r adeilad yn llety i unigolion mewn angen tai. Oherwydd maint a chyflwr yr adeilad, nid yw’r broses hon yn broses dros nos, ond rwy’n falch o nodi bod y gwaith a addewidiwyd ei wneud yn ystod 2024-25 wedi’i gwblhau a byddwn yn barod i gyflwyno cais cynllunio ymhellach ymlaen eleni.

**Gwynedd Effeithlon: Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol**

2. Mae’r gwaith o addasu gofod adrannol o fewn y Pencadlys wedi cwblhau, sydd wedi caniatáu i ni adleoli staff o’r swyddfeydd ymylol. Mae hyn wedi hwyluso cydweithio a’r ffordd newydd o weithio’n hybrid yn dilyn y pandemig, ac yn cael effaith gadarnhaol ar les staff.

Nid yw pob carreg filltir wedi’i chyrraedd yn unol â’r uchelgais, gyda rhai wedi cwblhau’n rhannol ac eraill wedi llithro am y rhesymau a nodir yn yr atodiad. Hoffwn fanylu ar ambell un isod:

**Gwynedd Glyd: Cynyddu’r cyflenwad o dai i bobl leol**

3. Mae’r Cynllun Prynu i Osod – sef cynllun i brynu tai oddi ar y farchnad agored i’w gosod ar rent canolraddol i bobl Gwynedd – wedi llwyddo yn ei uchelgais i brynu cyfanswm o 40 o dai erbyn diwedd y flwyddyn. Yn wir, mae 46 o dai bellach yn ein meddiant, gyda nifer o’r rheiny wrthi’n cael eu hadnewyddu i safon byw derbyniol. Gwaetha’r modd, nid ydym wedi cyrraedd yr uchelgais o osod 20 o dai – rydym 4 yn brin o’r uchelgais honno gydag 16 wedi’u gosod erbyn diwedd Ebrill. Oherwydd argaeledd grantiau, blaenoriaethwyd pryniannau yn y cyfnod cyntaf, ac o ganlyniad, llithrodd yr amserlen osod. Bu i ni hefyd wynebu rhwystrau wrth adnewyddu’r tai a brynwyd gyda diffyg contractwyr neu amserlenni’n llithro o ganlyniad i ddod ar draws problemau nas rhagwelwyd, a gafodd yn ei dro effaith ar yr

amserlen osod, ond yn dilyn adolygiad o'r drefn ac adnoddau'r prosiect hwn yn ddiweddar, rydw i'n ffyddiog y bydd y rhaglen osod yn cyflymu ac y byddwn yn cyrraedd ein huchelgais y flwyddyn nesaf.

**Gwynedd Glyd: Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd**

1. Nid yw wedi bod yn bosib cwblhau adnewyddiad 35 Ffordd y Coleg, Bangor o fewn yr amserlen ddymunol, a hynny oherwydd inni ddod o hyd i ddiffygion a adawyd gan y contractwr gwreiddiol. Roedd natur y diffygion yn golygu bod rhaid ail-wneud peth o'r gwaith ar elfennau allweddol o'r adeilad, sydd wedi achosi oedi i'r amserlen. Fodd bynnag, yn dilyn arolwg ddechrau'r flwyddyn lle adnabuwyd y gwaith angenrheidiol sydd angen ei wneud, rydw i'n falch o adrodd bod y gwaith yn tynnu tua therfyn a byddwn yn barod yn fuan iawn i geisio sêl bendith Rheolaeth Adeiladu er mwyn trosglwyddo'r adeilad i'r Gwasanaeth Digartrefedd.
2. Bu peth oedi gyda phrosiect Lle Da (sef hen adeilad NatWest a Gisda ar y Maes yng Nghaernarfon) – roedd hyn yn sgil materion les a chytundeb lefel gwasanaeth. Mae gwaith adeiladu ar y caffi a'r hwb pobl ifainc yn parhau a bydd wedi cwblhau ymhen ychydig wythnosau.
3. Ar ôl dechrau da i Gynllun Lesu Cymru: Gwynedd, mae'r nifer sy'n mynegi diddordeb yn y Cynllun wedi arafu dros y misoedd diwethaf, ac felly nid ydym wedi cyrraedd ein huchelgais o ddenu 20 eiddo ychwanegol a gosod 30 eiddo. Yn hytrach, denwyd 12 eiddo ychwanegol, gyda 28 wedi'i osod i unigolion a theuluoedd mewn angen tai. Fodd bynnag, er hynny, rydw i'n falch o weld bod 65 o unigolion wedi elwa o'r tai sydd gennym ar les, ac mae'r gallu i symud aelwydydd o lety argyfwng i lety mwy addas dros dro wedi lleddfu peth o'r pwysau sydd ar ein gwasanaeth digartrefedd. Mae'r Adran yn bwriadu gwneud ymgyrch i ddenu rhagor o eiddo dros y misoedd nesaf.
6. Ni fu'n bosib lansio'r Siop un Stop mewn pryd cyn diwedd y flwyddyn ariannol oherwydd bod gwaith terfynu rhai o'r trefniadau angen eu gwneud cyn lawnsio. Mae'r camau yn parhau ar waith, gan gynnwys sicrhau bod systemau, gwefan a threfniadau cyfathrebu priodol yn eu lle. Oherwydd bod hwn yn un o brif brosiectau'r Cynllun Gweithredu Tai, ac yn newid sylfaenol i sut mae pobl Gwynedd yn cysylltu gyda ni, mae'n bwysig bod y lansiad yn cael ei wneud yn y dull mwyaf effeithiol a phriodol er mwyn cyflawni nod y Siop un Stop.

**Gwaith dydd i ddydd yr Adran**

Mae'r Adran yn ymdrin â sawl maes ac yn cynnig gwasanaethau amrywiol i bobl Gwynedd, o wasanaethau rheng-flaen allweddol megis Digartrefedd, Opsiynau Tai ac Ynni; gwasanaethau corfforaethol megis Stadau, Cynnal a Chadw a Diogelwch Eiddo, Swyddfeydd a Glanhau; a gwasanaethau masnachol megis Difa Pla.

Mae mesurau perfformiad ar gyfer y gwasanaethau hyn i'w gweld yn Atodiad 2, a hoffwn dynnu sylw at rai ohonynt isod:

- **<u>Eiddo 4</u>: Canran y newid mewn allyriadau carbon o adeiladau'r Cyngor o gymharu â'r un adeg y llynedd**

  Ym mis Ebrill 2025, roedd canran y newid mewn allyriadau carbon o adeiladau'r Cyngor yn -29.14% o gymharu â'r un adeg yn 2024. Mae'r ganran hon yn naid mawr o gymharu â mis Mawrth a chredwn hynny o ganlyniad i sawl ffactor, gan gynnwys y tywydd a'r ffaith bod gwyliau'r Pasg wedi glanio yn gyfan gwbl ym mis Ebrill eleni.

Tan yn ddiweddar, roeddem yn cymharu’r newid mewn allyriadau gyda 2019 er mwyn cymharu gyda blwyddyn arferol yn sgil y pandemig. Fodd bynnag, penderfynwyd newid hwn yn ein cyfarfod Herio a Chefnogi Perfformiad ym mis Chwefror i edrych ar y flwyddyn ddiwethaf o hyn ymlaen. Fe nodwch felly bod y graff yn dangos dim ond dau set o ddata y tro hwn, ond bydd wrth gwrs yn llenwi wrth i ni fynd ymlaen trwy’r flwyddyn.

- **Eiddo 10: Canran prosiectau'r Gwasanaeth Datblygu Eiddo sydd yn symud ymlaen yn unol â'r amserlen wedi i'r briff llawn gael ei gytuno**

Ym mis Ebrill 2025, roedd 88% o brosiectau'r Gwasanaeth Datblygu ar drac yn unol â'r briff a gytunwyd. Eto, cymerwyd y cyfle yn ddiweddar i adolygu’r mesurydd hwn er mwyn ceisio adlewyrchu’r perfformiad yn well. Rydym felly yn dechrau cyfnod newydd o adrodd mewn ffordd ychydig yn wahanol, gan ddangos sawl prosiect sydd ar gamau gwahanol o'r broses (e.e. gwaith dichonoldeb, cam adeiladu, cam diffygion ac ati) fydd yn rhoi gwell trosolwg o’r gwaith a hwyluso adnabod llwyddiannau neu rwystrau.

- **Tai 01: Nifer o dai gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd yn sgil cefnogaeth gan y Cyngor (ers Ebrill 2020)**

Mae’r nifer o dai gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd wedi cynyddu i 284 erbyn hyn, sy’n cynnwys 108 o grantiau trwy'r Cynllun Cartrefi Gwag - teitl newydd ein cynllun grantiau fu'n arfer bod ar gyfer prynwyr tro cyntaf yn unig, ond sydd bellach ar gael i unrhyw fath o brynwr.

- **Tai 04: Nifer o dai cymdeithasol wedi eu datblygu er mwyn ceisio cyrraedd uchelgais y CGT**

Mae cyfanswm 386 o unedau wedi'u datblygu ers dechrau'r Cynllun Gweithredu Tai, gyda 327 arall ar y gweill ar y Prif Raglen. Cwblhaodd y 27 uned diweddaraf ar stad Maes Deudraeth, Penrhyndeudraeth, ac mae rhai trigolion eisoes wedi symud i mewn i'w cartrefi newydd.

- **Tai 08: Nifer o ddyddiau ar gyfartaledd mewn llety argyfwng anaddas**

Dros y cyfnod diwethaf, mae cwymp graddol i'w weld yn parhau yn yr amser mae rhywun yn ei dreulio mewn llety argyfwng o ganlyniad i ymdrechion y tîm Digartrefedd i symud pobl ymlaen i lety dros dro yn gynt. Yn 2024/25, lleolwyd bron i 100 yn llai o aelwydydd mewn llety argyfwng o gymharu â 2023/24, sydd yn ei dro wedi osgoi rhoi aelwydydd mewn llety anaddas, a hefyd wedi lleihau’r costau i’r Cyngor.

## 3. Ymgynghori

Mae’r adroddiad wedi ei greu yn seiliedig ar wybodaeth a chynnwys cyfarfod diweddaraf i herio a chefnogi perfformiad yr Adran Tai ac Eiddo, gyda’r Prif Weithredwr, y Pennaeth Adran, Rheolwyr gwasanaeth a finnau yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

**Atodiadau**

**Atodiad 1:** Adroddiad cynnydd cerrig milltir prosiectau Cynllun y Cyngor
**Atodiad 2:** Mesuryddion Perfformiad yr Adran

# CYNNYDD BLAENORIAETHAU GWELLA

# Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Gweithrediadau Blwyddyn 2

## Gwynedd Glyd: Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas yn eu cymunedau

| Adran | Prosiect | Beth ydym am ei gyflawni yn ystod yr AIL flwyddyn 2024-25 (cerrig milltir): | Diweddariad ar y cynnydd gyda'r cerrig milltir hyd yma (Ebrill 2025) | Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau / yn debygol o'i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol (Ydi / Nac Ydi) |
|---|---|---|---|---|
| **Tai ac Eiddo** | **Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol** | 1 Erbyn diwedd yr ail flwyddyn, bydd 200 o dai pellach ar gael ar gyfer trigolion Gwynedd, a bydd cyfanswm o 330 o dai cymdeithasol wedi'u datblygu erbyn diwedd y cyfnod | 1 Rydym wedi llwyddo yn ein huchelgais i greu 200 o dai pellach ar gyfer trigolion Gwynedd yn ystod y flwyddyn, gan ddod â'r cyfanswm o dai cymdeithasol i 386 bellach fydd yn helpu bron i 1,300 o unigolion. Mae cynlluniau eraill i godi, datblygu neu adfer cartrefi ac unedau byw yn gwneud cynnydd da – manylir rhagor isod | 1 Ydi |
| | | 2 Bydd o leiaf ddau o safleoedd Tŷ Gwynedd yn y cam adeiladu | 2 Mae 2 safle – Hen Lyfgrell Llanberis a Hen safle Ysgol Babanod Coed Mawr, Bangor ar safle yn y cam adeiladu | 2 Ydi |
| | | 3 Byddwn wedi prynu cyfanswm o 40 o dai oddi ar y farchnad agored trwy'r Cynllun Prynu i | 3 Mae 46 o dai wedi'u prynu trwy'r Cynllun Prynu i Osod, ac mae 16 o dai | 3 Ydi yn rhannol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Osod ac wedi gosod o leiaf 20 o'r rheiny i denantiaid sydd mewn angen tai<br><br>4 Byddwn wedi dod â 33 eiddo gwag pellach yn ôl i ddefnydd trwy gymorth grantiau i adnewyddu tai gwag i brynwyr tro cyntaf, gan ddod â'r cyfanswm at 100<br><br>5 Trwy'r Cynllun Prynu Cartref, bydd 45 eiddo wedi'i brynu trwy'r Cynllun, er mwyn helpu a galluogi i bobl i fyw yn eu cymunedau lleol | wedi'u gosod hyd yma gyda nifer yn barod i'w gosod dros y misoedd nesaf<br><br>4 Mae 108 o dai gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd trwy gymorth grant i brynwyr tro cyntaf hyd yma<br><br>5 Mae 62 o aelwydydd wedi prynu eu cartref trwy gymorth y Cynllun Prynu Cartref. | 4 Ydi<br><br>5 Ydi |
| **Tai ac Eiddo** | **Ymdrin efo'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd** | 1 Sicrhau bod trigolion y sir yn gwneud y mwyaf o'r cynlluniau sy'n bodoli fel ECO4 Flex a Rhaglen Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru gan barhau a'r nod o gyfeirio 300 o gleientiaid i ECO4 Flex. Byddwn yn cyfeirio cleientiaid sydd ddim yn gymwys ar gyfer ECO 4 Flex i'r cynllun Inswleiddio Mawr Prydeinig.<br><br>2 Sicrhau bod trigolion Gwynedd yn ymwybodol o'r holl fudd-daliadau sydd ar gael iddynt trwy gydweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol.<br><br>3 Uchafu ar hawlio cyllid sy'n cael ei ryddhau i helpu gyda chostau byw yn cael ei hawlio, er enghraifft yr arian a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i'r elusen *Fuel Bank Foundation* (FBF). | 1 ECO 4: mae 216 o geisiadau wedi eu cymeradwyo gyda 25 tŷ yn gweld gwelliant yn yr EPC.<br><br>2 Dros y ddau fis diwethaf rydym wedi helpu 825 o bobl. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyngor dros y ffon, rhoi cymorth i bobl mewn digwyddiadau dros y Sir yn ogystal ag ymweliadau yn eu cartrefi<br><br>3 Wedi dosbarthu 656 o dalebau ynni i drigolion sydd mewn angen sydd ar fesurydd rhag-dalu yn Ngwynedd gyda gwariant gwerth £24,719. Ers y cychwyn rydym wedi dosbarthu 5,671 gwerth £236,055 - arian sydd wedi | 1 Ydi<br><br>2 Ydi<br><br>3 Ydi |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 4 Cyfeirio trigolion sy’n cysylltu am gymorth ychwanegol i'r Banciau Bwyd, Canllaw, Teleofal, Grantiau Tai Gwag y Cyngor a Benthyciadau Cyngor, Gwaith Gwynedd, Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth, Dŵr Cymru, Hybiau Cymunedol ac hefyd cyfeirio i’r gwasanaeth Mesuryddion Ynni Clyfar. | mynd yn uniongyrchol i drigolion fwyaf bregus y sir.<br>Noder fod Adra, Grŵp Cynefin a Tai Gogledd Cymru yn cymryd galwadau ar gyfer eu tenantiaid eu hunain felly mae hyn wedi golygu gostyngiad yn y niferoedd sydd yn cael eu prosesu gan y Tîm.<br><br>4 Dros y dau fis diwethaf rydym wedi helpu 825 o bobl. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyngor dros y ffon, rhoi cymorth i bobl mewn digwyddiadau dros y Sir yn ogystal ac ymweliadau yn eu cartref. Yn ogystal mae’n cynnwys cyfeirio pobl i Nyth ac hefyd ceisiadau ECO | 4 Ydi |
| **Tai ac Eiddo** | **Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd** | 1 Byddwn wedi cwblhau’r datblygiadau isod:<br>○ 35 Ffordd y Coleg, Bangor<br>○ 137 Stryd Fawr, Bangor<br>○ 20 Ffordd yr Ala, Pwllheli | 1 Mae gwedd adeiladu 137 Stryd Fawr Bangor wedi cwblhau; Mae tenantiaid i mewn yn 20 Ffordd yr Ala; Mae gwaith ar adfer problemau a adawyd gan y cyn-gontractwyr yn parhau yn 35 Ffordd y Coleg - yn dilyn arolwg ddechrau’r flwyddyn mae’r gwaith angenrheidiol wedi’i adnabod ac yn tynnu tua therfyn erbyn hyn. Unwaith byddwn yn derbyn "sign-off" gan y cwmni a Rheolaeth Adeiladu, byddwn yn trosglwyddo’r adeilad i'r gwasanaeth Digartrefedd.<br><br>2 Bu peth oedi gyda’r prosiect hwn yn sgil materion les a chytundeb lefel | 1 Ydi, yn rhannol<br><br>2 Nac ydi |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 2 Byddwn wedi cwblhau gwedd olaf adeilad Lle Da (hen adeilad Gisda a NatWest ar y Maes, Caernarfon), sef y caffi a hwb pobl ifanc | gwasanaeth. Mae gwaith adeiladu ar y caffi a hwb pobl ifanc yn parhau a bydd wedi'i gwblhau ymhen ychydig wythnosau. | |
| | | 3 Byddwn wedi denu 20 eiddo ychwanegol i Gynllun Lesu Cymru, ac wedi gosod o leiaf 30 eiddo i unigolion a theuluoedd mewn angen tai | 3 Mae 12 eiddo ychwanegol wedi'i ddenu hyd yma a 28 eiddo wedi'i osod gan helpu 65 o unigolion. | 3 Nac ydi |
| | | 4 Byddwn wedi cwblhau pryniant cyn-swyddfeydd y Llywodraeth, Penrallt, wedi cwblhau gwaith dichonoldeb ac wedi paratoi cais cynllunio ar gyfer y datblygiad | 4 Mae'r pryniant wedi cwblhau a gwaith cefndirol sylweddol wedi digwydd ar gyfer cyflwyno cais cynllunio megis asesiadau strwythurol, dichonoldeb ac ati | 4 Ydi |
| | | 5 Byddwn yn edrych ar brynu neu addasu adeiladau parod er mwyn cynyddu ein hopsiynau llety dros dro ymhellach | 5 Mae adeilad wedi'i brynu yng Nghaernarfon a thrafodaethau yn parhau i brynu adeilad ym Mangor, gan dynnu ar gefnogaeth Llywodraeth Cymru i gyllido elfennau | 5 Ydi |
| | | 6 Byddwn wedi sefydlu Siop un Stop (sef cyfundrefn newydd sydd yn gallu ymateb i anghenion trigolion wrth gyflwyno ceisiadau yn ymwneud â thai mewn un lle canolog). | 6 Mae camau terfynol y broses o baratoi i lansio'r Siop un Stop ar waith, ac mae drafft o'r wefan wedi cwblhau, ac mae gwaith ar systemau bron â gorffen. Rydym wrthi'n paratoi trefniadau cyfathrebu mewn paratoad i lansio | 6 Nac ydi |

## <u>Gwynedd Effeithlon:</u> Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n dda ac yn effeithiol

| Adran | Prosiect | Beth ydym am ei gyflawni yn ystod yr AIL flwyddyn 2024-25 (cerrig milltir): | Diweddariad CRYNO ar y cynnydd gyda'r cerrig milltir hyd yma (Ebrill 2025) | Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau / yn debygol o'i erbyn diwedd y flwyddyn chwblhau ariannol (Ydi / Nac Ydi) |
|---|---|---|---|---|
| **Tai ac Eiddo** | **Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol** | 1 Byddwn yn paratoi Cynllun Rheoli Asedau Eiddo o'r newydd gan ymgorffori'r polisïau drafft sydd wedi eu hadolygu, a darganfyddiadau y trafodaethau gyda'r Adrannau mewn cyswllt ag asedau sy'n weddill i anghenion. | 1 Gwaith a adolygu polisïau wedi ei gyflawni a thrafodaethau wedi'u cynnal gyda rhan helaeth o'r Adrannau. Mae bwriad edrych ar ddiwygio hicynau hawliau dirprwyedig ar gyfer caffael a gwaredu, a bydd gofyn cyfarch y newidiadau yn y Polisïau diwygiedig. | 1 Ydi yn rhannol. (Bydd Cynllun Drafft mewn lle ond angen addasiadau a phenderfyniad i'w fabwysiadu) |
| | | 2 Bydd y gwaith o addasu'r Pencadlys yng Nghaernarfon yn cychwyn er ein galluogi i adleoli staff o'r swyddfeydd ymylol megis Mona, Bloc A a Phlas Llanwnda. | 2 Mae'r gwaith o addasu'r gofodau adrannol o fewn y Pencadlys wedi'i gwblhau er galluogi adleoli staff o'r swyddfeydd ymylol. | 2 Ydi |
| | | 3 Byddwn yn asesu ein anghenion ar gyfer Swyddfeydd Ffordd y Cob a Phenarlâg, ac yn cychwyn ar y gwaith o gynllunio ac addasu er mwyn cyfarch gofynion y trefniadau gweithio Hybrid. | 3 Mae gwaith cychwynnol wedi'i wneud er mwyn adnabod ein hangen ar gyfer gofod swyddfa yn Ffordd y Cob a Phenarlâg, ac opsiynau i uchafu defnydd y safleoedd trwy gyfuno defnyddiau amgen yn cymryd lle. | 3 Ydi |

Mis blaenorol: Mawrth 2025

# HERIO A CHEFNOGI PERFFORMIAD - MESURAU TAI AC EIDDO

Mis cyfredol: Ebrill 2025

## EIDDO 01
Mis diwethaf: 14.60

**14.22** ↓

Yr amser (mewn dyddiau) a gymer i ymateb i gais am waith cynnal a chadw

**Gareth Wyn Jones**

## EIDDO 02
★ Mis diwethaf: 6

**6**

Nifer o gwsmeriaid (o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth gan yr Uned Cynnal a Cha...

**Gareth Wyn Jones**

## EIDDO 03
Mis diwethaf: 13.30

**13.39** ↑

Yr amser (mewn dyddiau) a gymer i ymateb i gais am waith Teleofal

**Gareth Wyn Jones**

## EIDDO 04
Mis diwethaf: -2.68%

**-29.14%** ↓

Canran yr allyriadau carbon o adeiladau'r Cyngor o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf

**David Mark Lewis**

## EIDDO 05
Mis diwethaf: 70%

**68%** ↓

Canran o archwiliadau eiddo blynyddol wedi'u cwblhau

**Gareth Wyn Jones**

## EIDDO 06
★ Mis diwethaf: 6

**6**

Nifer o gwsmeriaid (o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth gan yr Uned Difa Pla

**David Mark Lewis**

## EIDDO 07
★ Mis diwethaf: 6

**6**

Nifer o gwsmeriaid (allan o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda gwasanaeth yr Uned Stadau

**Daniel Lewis**

## EIDDO 08
★ Mis diwethaf: 5

**6** ↑

Nifer o gwsmeriaid (o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth gan yr Uned Glanhau

**Karen Moseley-Jones**

## EIDDO 09
★ Mis diwethaf: 6

**6**

Nifer o gwsmeriaid (o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth gan yr Uned Swyddfeydd

**Karen Moseley-Jones**

## EIDDO 10
Mis diwethaf: 88%

**88%**

Prosiectau'r Uned Datblygu Eiddo sydd yn symud ymlaen yn unol â'r amserlen wedi i'r briff llawn gael ei gyt...

**Geraint Owen**

---

- ★ (gwyrdd) Perfformiad yn rhagori
- (gwyrdd) Perfformiad yn cadw o fewn yr amrediad arferol a dim tystiolaeth amlwg ein bod yn waeth na chymheiriaid.
- (melyn) Elfen o bryder bod perfformiad yn dechrau syrthio y tu allan i'r amrediad arferol derbyniol a chamau ar y gweill / Perfformiad o fewn yr amrediad arferol ond tystiolaeth bod modd gwella ar y perfformiad.
- (coch) Perfformiad wedi dirywio yn bell o'r amrediad arferol.

*Mis blaenorol*: Mawrth 2025

# HERIO A CHEFNOGI PERFFORMIAD - MESURAU TAI AC EIDDO

*Mis cyfredol*: Ebrill 2025

## TAI 01
Mis diwethaf: 281

**284** ↑

Nifer y tai gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd trwy gefnogaeth y Cyngor

**Gareth Moriarty Owen**

## TAI 02
Mis diwethaf: 71

**60** ↓

Dyddiau ar gyfartaledd i gyflawni gwaith i wneud addasiadau i dai pobl anabl

**Gareth Moriarty Owen**

## TAI 03
Mis diwethaf: 6

**5** ↓

Nifer o gwsmeriaird (allan o 6) yn fodlon a'r gwasanaeth gorfodaeth tai

**Gareth Moriarty Owen**

## TAI 04
Mis diwethaf: 367

**386** ↑

Nifer o dai cymdeithasol wedi eu datblygu er mwyn ceisio cyrraedd uchelgais y...

**Hedd Tomos**

## TAI 05
★ Mis diwethaf: 8995

**9943** ↑

Nifer o bobl sydd wedi derbyn cymorth i fyw mewn tŷ yn lleol

**Hedd Tomos**

## TAI 06
Mis diwethaf: 46

**46**

Nifer o dai wedi eu prynu drwy'r cynllun 'Prynu i Osod'

**Hedd Tomos**

## TAI 07
Mis diwethaf: 43

**53** ↑

Prosiectau a ariennir trwy'r Grant Cymorth Tai sydd wedi'u hadolygu

**Hedd Tomos**

## TAI 08
Mis diwethaf: 197

**196** ↓

Nifer o ddyddiau ar gyfartaledd mewn llety argyfwng anaddas

**Colleen Pritchard**

## TAI 09
Mis diwethaf: 404

**402** ↓

Nifer o ddyddiau ar gyfartaledd mewn tŷ dros dro

**Colleen Pritchard**

## TAI 11
Mis diwethaf: 695

**684** ↓

Dyddiau ar gyfartaledd ar restr aros am dŷ cymdeithasol

**Hedd Tomos**

## TAI 12
Mis diwethaf: 98%

**98%**

Canran gosodiadau tai cymdeithasol a osodwyd i berson lleol

**Hedd Tomos**

## TAI 13
Mis diwethaf: 745

**753** ↑

Tlodi Tanwydd - tai sydd wedi gweld cynnydd mewn EPC

**David Mark Lewis**



★ Perfformiad yn rhagori

Perfformiad yn cadw o fewn yr amrediad arferol a dim tystiolaeth amlwg ein bod yn waeth na chymheiriaid.

Elfen o bryder bod perfformiad yn dechrau syrthio y tu allan i'r amrediad arferol derbyniol a chamau ar y gweill / Perfformiad o fewn yr amrediad arferol ond tystiolaeth bod modd gwella ar y perfformiad.

Perfformiad wedi dirywio yn bell o'r amrediad arferol.

# EIDDO 01: Uned Cynnal a Chadw


Yn ôl i'r dashfwrdd


**Mesurydd:** Yr amser (mewn dyddiau) a gymer i gwblhau cais am waith cynnal a chadw

Mae'r amser a gymerir i gwblhau cais am waith cynnal a chadw wedi sefydlogi dros y misoedd diwethaf rhwng 12 ac 15 diwrnod.

Mae'n galonogol ac yn destun balchder i'r Uned bod y ffigwr yma wedi gostwng yn gyson dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda'r gwahaniaeth rhwng Mawrth 2024 a 2025 bron i 5 diwrnod, a rhwng Ebrill 2024 a 2025 yn 4.68 diwrnod.

Dros yr un cyfnod, rydym yn gweld cynnydd yn y nifer o alwadau sy'n ein cyrraedd, gyda'r nifer galwadau dros y 7 mis diwethaf fel rheol uwch ben y cyfartaledd dros y flwyddyn.



# EIDDO 02: Uned Cynnal a Chadw


Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Nifer o gwsmeriaid (o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth a gawsant gan yr Uned Cynnal a Chadw

Drwy ofyn am sgôr allan o 10 rydym yn cael adborth da iawn gan ein cwsmeriaid ac yn mynd at wraidd eu barn go iawn pan nad ydynt yn rhoi sgôr llawn.

Dros y chwarter diwethaf, mae'r adborth wedi bod yn bositif iawn ar y cyfan ac rydym yn falch bod pob un wedi rhoi sgôr llawn i ni dros y cyfnod diweddaraf. Dyma flas o'r sylwadau:

1. "Hapus efo'r gwasanaeth - 10/10" (10/10)
2. "Y broblem wedi ei sortio a heb ddod yn ôl wedyn, felly'n hapus iawn efo'r gwasanaeth." (10/10)
3. "Hapus fod rhywun wedi dod draw a sortio'n sydyn." (10/10)




# EIDDO 03: Uned Cynnal a Chadw


Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Yr amser (mewn dyddiau) a gymerir i gwblhau cais am waith Teleofal

Mae nifer y galwadau sydd wedi eu derbyn am waith Teleofal wedi sefydlogi dros y misoedd diwethaf, gyda'r nifer o ddyddiau i gwblhau cais am waith Teleofal wedi parhau yn eithaf sefydlog dros gyfnod o flwyddyn. Mae'r gwaith o drosglwyddo offer Teleofal i declynnau digidol yn parhau, er galluogi i bobl barhau i fyw yn eu cartrefi.

Rhagwelir y bydd cynnydd yn y dyddiadau a gymerir i gwblhau cais yn y misoedd nesaf oherwydd absenoldeb o fewn y tim sydd wedi golygu nad oeddem yn gweithredu ar lawn gapasiti. Fodd bynnag mae trefniadau yn eu lle i uchafu sgiliau swyddog o fewn y tîm er sicrhau parhad gwasanaeth.



# EIDDO 04: Uned Cadwraeth Ynni


Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Canran y newid mewn allyriadau carbon o adeiladau'r Cyngor o gymharu â'r un adeg y llynedd

Yn sgil adolygu'r mesurydd hwn, byddwn bellach yn cymharu allyriadau carbon o adeiladau'r Cyngor gyda'r flwyddyn ddiwethaf o hyn ymlaen, yn hytrach na chymharu gyda'r un cyfnod yn 2019. Noder felly y bydd y graff yn edrych ychydig yn wag am rai misoedd, ond yn llenwi wrth i ddata'r misoedd nesaf ddod i mewn.

Ym mis Mawrth, roedd cynnydd o 2.85% yn nefnydd trydan ein hadeiladau, ond gostyngiad o 5.01% yn ein defnydd nwy. Wrth gyfuno data trydan a nwy a chymharu mis Mawrth 2024 a 2025, gwelwyd gwahaniaeth o -17.771kgCO2, neu -2.68%.

Ym mis Ebrill 2025, roedd defnydd trydan ein hadeiladau 17.77% yn llai na defnydd Ebrill 2024, a defnydd nwy i lawr 34.46%. Wrth gyfuno data trydan a nwy a chymharu mis Ebrill 2024 a 2025, gwelwyd gostyngiad o 168 tunnell o allyriadau carbon, neu -29.14%. Credwn fod y cwymp sylweddol hwn o ganlyniad i sawl ffactor, gan gynnwys y tywydd a'r ffaith bod gwyliau'r Pasg wedi glanio yn gyfan gwbl ym mis Ebrill eleni.




# EIDDO 05: Uned Cydymffurfiaeth

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Canran o archwiliadau eiddo blynyddol wedi'u cwblhau

Er bod y tîm yn ôl i'w lawn gapasiti yn dilyn trafferthion recriwtio, mae gofyn i'r swyddog newydd sydd wedi ei benodi ymgymryd â hyfforddiant er mwyn bod yn gymwys i gwblhau rhai agweddau o'r gwaith, gan barhau i gael effaith ar gapasiti'r tîm. Mae'r gofyn ar waith y tîm yn sgil datblygiadau'r Cynllun Gweithredu Tai hefyd yn cael effaith ar eu gallu i ymgymryd â'u harchwiliadau yn unol â'r amserlen.

Mae trefniadau penodol mewn lle i sicrhau fod archwiliadau statudol yn cael eu cyflawni'n amserol.



# EIDDO 06: Uned Difa Pla


Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Nifer o gwsmeriaid (o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth a gawsant gan yr Uned Difa Pla

Mae'r Uned Difa Pla yn wasanaeth masnachol i'r cyhoedd ac felly mae'n hanfodol fod ein cwsmeriaid o'r farn eu bod yn cael gwasanaeth ardderchog am yr hyn maen nhw'n talu amdano. Rydym yn falch felly fod hwn yn faes lle rydym yn gyson yn cael adborth da gan ein cwsmeriaid.

Mae 100% o'r rheiny a holwyd dros y deufis diwethaf yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth h.y. cafwyd sgôr o 10/10 i'r gwasanaeth gan bob un. Mae rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd wedi'u cynnwys isod:

1. "Llygod heb ddod yn ôl - hapus iawn" (10/10)
2. "Cyngor gan y swyddog wedi gweithio - diolch!" (10/10)
3. "Hapus iawn dim problem o gwbwl." (10/10)
4. "Gwasanaeth grêt - diolch." (10/10)
5. "Gwasanaeth da, pris yn rhad" (10/10)
6. "Problem wedi sortio" (10/10)



# EIDDO 07: Gwasanaeth Stadau


Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Nifer o gwsmeriaid (o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth a gawsant gan y Gwasanaeth Stadau

Mae'r data bodlonrwydd cwsmer dros y misoedd diwethaf wedi parhau yn gyson uchel, er gwaethaf y ffaith fod y gofyn sydd ar y Gwasanaeth yn sgil cynlluniau'r Cynllun Gweithredu Tai yn parhau i gynyddu.

Yn dilyn ymddiswyddiad diweddar, mae'n bosibl y gwelir cwymp yn y bodlonrwydd cwsmer dros y misoedd nesaf, gyda'r gofyn i flaenoriaethu a rheoli disgwyliadau rhai gwasanaethau.

Mae'r sefyllfa o ran cefnogaeth gyfreithiol yn parhau yn sefydlog, ac mae cyfarfodydd misol wedi eu rhaglennu er mwyn asesu llwyth gwaith a chapasiti.




# EIDDO 08: Uned Glanhau

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Nifer o gwsmeriaid (o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth a gawsant gan yr Uned Glanhau

Mae'r sgôr dros y deufis diwethaf yn dangos bod ein cwsmeriaid yn fodlon iawn, neu'n gwbl fodlon, gyda'r gwasanaeth. Dyma flas o'r adborth:

1. "Pob dim yn iawn." (10/10)
2. "Glanhawr yn gwneud gwaith da iawn." (10/10)
3. "Pob dim yn gret." (10/10)



# EIDDO 09: Uned Swyddfeydd

Yn ôl i'r dashfwrdd


**Mesurydd:** Nifer o gwsmeriaid (o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth a gawsant gan yr Uned Swyddfeydd

Rydym yn casglu barn staff ein swyddfeydd er mwyn darganfod os yw eu swyddfa yn caniatáu iddynt wneud eu gwaith yn iawn, sy'n adlewyrchiad ar y gwasanaeth a gânt gennym ni fel Uned.

Mae'n braf dweud bod staff yn dal i deimlo bod y gwasanaeth yn cyrraedd y nod, fel y tystia'r misoedd diwethaf.

Dyma flas o'r sylwadau gafwyd i'r arolwg boddhad cwsmer:

1. "Popeth yn iawn." (10/10)
2. "Wedi symud swyddfa yn ddiweddar, swyddfa yn well na'r un blaenorol." (10/10)



# EIDDO 10: Gwasanaeth Datblygu Eiddo

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Canran prosiectau'r Gwasanaeth Datblygu Eiddo sydd yn symud ymlaen yn unol â'r amserlen wedi i'r briff llawn gael ei gytuno

Mae gan y Gwasanaeth Datblygu Eiddo 60 o brosiectau byw ar wahanol gamau o'r broses, a 46 o brosiectau sydd yn y cyfnod diffygion.

O'r prosiectau byw, mae 88% ohonynt (52 prosiect) yn symud ymlaen yn unol â'r rhaglen wreiddiol, wedi cwblhau, neu ddim wedi llithro ymhellach o raglen ddiwygiedig.

Fel y gwelir o'r graff isaf ar y dde, mae'r camau gwahanol wedi'u rhannu fel a ganlyn:


**Cyfnod Dichonoldeb:** 17 prosiect
- 13 ar drac
- 1 mewn perygl o lithro
- 3 wedi llithro


**Cyfnod Dylunio:** 20 prosiect
- 18 ar drac
- 2 wedi llithro

**Cyfnod Adeiladu:** 23 prosiect
- 22 ar drac
- 1 wedi llithro

Mae'r prosiectau sy'n llithro yn llithro oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth y Gwasanaeth.

Noder fod y mesurydd hwn yn dechrau cyfnod newydd o adrodd er mwyn ceisio rhoi gwell trosolwg o'r prosiectau sydd ar y gweill.



# TAI 01: Uned Grantiau a Phrosiectau

Yn ôl i'r dashfwrdd


**Mesurydd:** Nifer o dai gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd yn sgil cefnogaeth gan y Cyngor (ers Ebrill 2020)


Mae nifer y tai gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd yn sgil cefnogaeth gan y Cyngor wedi cynyddu eto dros y misoedd diwethaf i 284 (o gymharu â 269 pan adroddwyd ym mis Chwefror 2025).


Mae hyn yn cynnwys 108 o dai sydd wedi derbyn grant i adnewyddu tai gwag fel rhan o brosiect 3dd y Cynllun Gweithredu Tai, a gwerth £16,837 o wariant ym mis Mawrth, a £1,650 yn Ebrill. Golyga hynny bod cyfanswm o £1.27m wedi'i wario. Mae'r grantiau yn cefnogi 3.5 contractwr lleol ar gyfartaledd ar bob cais.

Rydym yn falch o adrodd bod y Cynllun Cartrefi Gwag (sef y cynllun grantiau prynwyr tro cyntaf yn flaenorol) yn denu sawl ymgeisydd, gyda 40 cais wedi'i dderbyn ers iddo lansio ar ei newydd wedd yn yr hydref 2024, a gwerth £365,102 wedi'i gymeradwyo i helpu pobl Gwynedd ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd. Mae'r rhan helaeth o'r rhain yn Nwyfor a Meirionnydd.

<u>Cynllun Tai Gwag Cenedlaethol</u>
Mae'r Cynllun Tai Gwag Cenedlaethol (sef cynllun Llywodraeth Cymru) wedi derbyn cyfanswm o 66 o geisiadau a 41 yn bwrw ymlaen ac wedi'u pasio ymlaen i syrfëwr asesu.
Mae 14 ymgeisydd wedi gorffen y gwaith a 14 cais arall gyda gwaith ar y gweill.



# TAI 02: Uned Grantiau a Phrosiectau

Yn ôl i'r dashfwrdd

## **Mesurydd:** Dyddiau ar gyfartaledd a gymerir i gwblhau gwaith addasiadau i dai pobl anabl - Grant Galluogi

Mae'r dyddiau ar gyfartaledd a gymerir i gwblhau addasiadau Galluogi ac addasiadau DFGs (*Disabled Facilities Grant*) wedi gweld cwymp rheolaidd, calonogol dros y cyfnod diwethaf, gyda'r ddau ffigwr wedi sefydlogi dros y 6 mis diwethaf. Mae'n braf nodi hefyd fod y dyddiau ar gyfartaledd eleni wedi gostwng o gymharu â'r un cyfnod yn 2024.


**Grantiau Galluogi**


Mae 560 o grantiau Galluogi wedi'u cwblhau gyda gwariant o £2,310,596 hyd yma. Mae'r grantiau yma yn sicrhau bod mân addasiadau, fel rampiau i dai, neu ganllawiau neu risiau esgyn yn cael eu gosod er mwyn helpu pobl aros yn eu cartref a pharhau i fyw yn annibynnol. Mae'r amser cyfartalog yn 60 diwrnod yn Ebrill 2025 ac wedi parhau'n gyson rhwng 60-70 diwrnod dros y misoedd diwethaf.

**Grantiau DFGs**

Ers Ebrill 2020 rydym wedi cwblhau 33 o addasiadau i dai plant anabl ac wedi gwario £1,599,560 arnynt, sydd wedi sicrhau bod y plant hynny yn gallu parhau i fyw yn eu cartref. Mae'r amser cyfartalog yn 279 diwrnod yn Ebrill 2025, ac wedi sefydlogi'n arw ers i rai ceisiadau fu ar agor am amser maith oherwydd eu cymhlethdod gwblhau. Mae trafodaethau ar y gweill ar y cyd â'r Adran Oedolion a Phlant i adolygu'r broses gyfan mewn perthynas ag achosion plant er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gyflawni'n effeithiol i bobl Gwynedd.

Yn yr un cyfnod, mae 260 o addasiadau i dai oedolion anabl wedi'u cwblhau, gyda gwariant hyd yma o £2,605,648 sydd yn golygu bod modd i unigolyn barhau i fyw yn annibynnol gartref. Rydym hefyd fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Tai, yn gallu dyfarnu benthyciad disgresiwn uwchlaw'r uchafswm grant sydd ar gael yn arferol er mwyn sicrhau nad oes trigolion yn colli allan o ganlyniad i gostau sydd ychydig uwch ben y trothwy. Mae pob benthyciad disgresiwn yn cael ei ad-dalu pan gaiff yr eiddo ei werthu.



# TAI 03: Uned Gorfodaeth

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Nifer o gwsmeriaid (allan o'r 6 a holwyd) sy'n gwbl fodlon gyda'r Uned Gorfodaeth Tai

Mae'r adborth i wasanaeth yr Uned Gorfodaeth yn gyffredinol hynod o bositif, ac mae canmol cyson i'n staff.

Noder, o'r 6 cwsmer a holwyd ar gyfer mis Ebrill, dim ond 5 ymateb a dderbyniwyd fodd bynnag roedd 100% yn gwbl fodlon (h.y. wedi rhoi sgôr o 10/10) efo'r gwasanaeth gydag adborth cyffredinol yn cynnwys gwerthfawrogiad o'r ymatebion a gweithred cyflym gan yr holl swyddogion.

Mis blaenorol 24


**16**

Nifer o archwiliadau y mis hwn

Mis blaenorol 6

**5**

Nifer cwynion y mis hwn



# TAI 04: Prif Raglen Ddatblygu Tai Cymdeithasol (PDP)

Yn ôl i'r dashfwrdd


**Mesurydd:** Nifer o dai cymdeithasol wedi eu datblygu er mwyn ceisio cyrraedd uchelgais y CGT

**Mae 386 o unedau wedi'u datblygu hyd yma (cynnydd o 27 uned ers y tro diwethaf i ni adrodd ym mis Chwefror 2025).**


Cwblhaodd 8 uned ar stad newydd Maes Deudraeth, Penrhyndeudraeth ym mis Mawrth. Ymhellach, cwblhaodd 19 uned arall ar y stad ym mis Ebrill. Mae'r stad hon yn ganlyniad cydweithio llwyddiannus rhwng cymdeithasau tai Grŵp Cynefin a Chlwyd Alyn, ac yn cynnwys cymysgedd da o eiddo 1-4 ystafell wely. Mae'n braf adrodd bod y tenantiaid wedi symud i mewn i'r 27 eiddo yma, ac yn brysur yn eu gwneud yn gartrefi iddynt a'u teuluoedd.

Mae 327 o unedau ar y gweill ar y Prif Raglen, ac ar gamau gwahanol o'r broses.

Nifer o dai cymdeithasol wedi eu datblygu er mwyn ceisio cyrraedd uchelgais y CGT





# TAI 05: Cynllun Gweithredu Tai

Yn ôl i'r dashfwrdd


**Mesurydd:** Nifer o bobl sydd wedi derbyn cymorth i fyw mewn tŷ yn lleol (uchelgais y CGT)

Mae 9943 o bobl wedi derbyn cymorth trwy un neu fwy o gynlluniau'r Cynllun Gweithredu Tai ers ei lansio. Gall hyn fod trwy nifer o ffyrdd, gan gynnwys derbyn tenantiaeth gymdeithasol neu ganolraddol (cynllun 2a), trwy gefnogaeth ein Cynllun Prynu i Osod (2c) neu Brynu Cartref (3f), trwy dderbyn grant i ddod â thŷ gwag yn ôl i ddefnydd (3dd) neu gael eithriad treth Cyngor ychwanegol tra bydd gwaith atgyweirio tŷ gwag ar y gweill (3e), trwy dderbyn cyngor neu gefnogaeth ein gwasanaeth ynni (4a) neu trwy dderbyn grant neu fenthyciad i wneud addasiadau i dŷ fel bod modd i berson anabl barhau i fyw yn annibynnol gartref (5e, 5f, 5ff), a llawer mwy.

Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno gerbron y Cabinet ar 13 Mai yn ceisio sêl bendith i ymestyn y Cynllun am ddwy flynedd ychwanegol (hyd at 2028/29) a chlustnodi'r cyllid ychwanegol ddaw yn sgil ei ymestyn. Wedi hynny, byddwn yn symud ymlaen i gyhoeddi dogfen wedi'i diweddaru o'r Cynllun. Pe derbynnir sêl bendith i ymestyn, bydd gwerth y Cynllun Gweithredu Tai yn codi i oddeutu £190m (trwy sawl ffynhonnell ariannol), a bydd 2003 o unedau yn cael eu creu, ac 17,639 o bobl yn cael eu helpu.

Rhai uchafbwyntiau yn sgil y Cynllun Gweithredu Tai dros y cyfnod diwethaf:

- **Tŷ Gwynedd - cynllun 3a:** Mae gwaith ar safle yn Llanberis a Choed Mawr ac yn gwneud cynnydd da. Bu ychydig o oedi oherwydd materion gyda pholyn trydan yn Llanberis, ond mae contractwyr bellach yn ôl ar safle. Mae'r broses o ystyried enwau ar gyfer safle Coed Mawr ar y gweill, a byddwn yn ymgysylltu â disgyblion ysgolion lleol yn ystod y broses honno.
- **Ymgysylltu a chyfathrebu gyda chymunedau:** Yn ystod mis Ebrill, dechreuodd ail gyfres Tai ar Daith - cyfres o ddigwyddiadau sy'n mynd â swyddogion tai a meysydd cysylltiedig allan i'r gymuned i siarad gyda thrigolion Gwynedd yn y cnawd. Bethesda oedd y lleoliad cyntaf, a daeth 43 o aelodau o'r cyhoedd a chynghorwyr i'n gweld yn ystod y digwyddiad hwnnw. Cynhelir 3 digwyddiad arall yn ystod mis Mai a Mehefin, ym Mhorthmadog, Tywyn a Nefyn.
- **Gwasanaeth Cadwraeth Ynni (4a):** Dros y ddau fis diwethaf mae'r Gwasanaeth wedi helpu 825 o bobl. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyngor dros y ffon, rhoi cymorth i bobl mewn digwyddiadau dros y Sir yn ogystal ag ymweliadau yn eu cartrefi. Yn ystod yr un cyfnod, bu i'r tîm ddosbarthu 656 o dalebau ynni i drigolion sydd mewn angen sydd ar fesurydd rhag-dalu yn Ngwynedd gyda gwariant gwerth £24,719. Ers dechrau'r Cynllun, rydym wedi dosbarthu 5,671 o dalebau gwerth £236,055 - arian sydd wedi mynd yn uniongyrchol i drigolion fwyaf bregus y sir.



# TAI 06: Cynllun Gweithredu Tai: Cynllun 'Prynu i Osod'

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Nifer o gartrefi sydd wedi'u prynu trwy'r Cynllun Prynu i Osod

**Mae 46 eiddo wedi'i brynu trwy'r Cynllun Prynu i Osod hyd yma ac rydym yn falch bod ein huchelgais ar gyfer nifer o bryniannau ym mlwyddyn ariannol 2024/25 (sef 43) wedi'i gyrraedd.**


Prynwyd y tŷ diweddaraf ym Mangor.

Mae 5 pryniant ar y gweill, ac rydym hefyd yn y broses o negodi 6 pryniant arall ar hyn o bryd.

O'r 46 sydd bellach yn ein meddiant mae:


- 16 o dai ar osod ar hyn o bryd
- 3 yn barod i'w marchnata yn dilyn cwblhau gwaith atgyweirio
- gwaith atgyweirio yn mynd yn ei flaen mewn 20 o dai
- 7 bron yn barod i fynd allan i dendr am gontractwr

Nifer o gartrefi sydd wedi'u prynu trwy'r Cynllun Prynu i Osod




Nifer wedi'u prynu hyd yma

46




*Noder: nid yw'r pryniannau sydd ar y gweill yn cael eu dangos ar y map er mwyn gwarchod cyfrinachedd y broses gyfreithiol.*

# TAI 07: Uned Comisiynu (Grant Cymorth Tai)


Yn ôl i'r dashfwrdd


**Mesurydd:** Nifer o adolygiadau sydd wedi'u cynnal ar gyfer cynlluniau'r Grant Cymorth Tai

Cynhaliwyd 3 adolygiad ym mis Mawrth 2025 a 10 adolygiad ym mis Ebrill 2025.

Mae 10 adolygiad wedi'i gynnal yn ystod Ebrill gyda'r adroddiadau yn cael eu cyhoeddi y mis Mai. Mae un cynllun ar ôl i'w adolygu, a byddwn yn ailddechrau'r drefn adolygu yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Yn ogystal â chynnal adolygiadau, mae'r tîm yn ymgymryd â gwaith cylchol pob 6 mis yn gysylltiedig â'r angen i adrodd i'r Llywodraeth ar Fframwaith Ddeilliannau'r Grant Cymorth Tai, ac rydym yn falch o nodi bod y gwaith gofynnol yma bellach ar fin cael ei gwblhau o flaen amser.



# TAI 08: Gwasanaeth Digartrefedd: Llety argyfwng

Yn ôl i'r dashfwrdd


**Mesurydd:** Nifer o ddyddiau ar gyfartaledd mewn llety argyfwng anaddas


Gwelir bod y dyddiau ar gyfartaledd a dreulir mewn llety argyfwng (graff ar y chwith) yn dangos lleihad calonogol, cyson ers dechrau'r flwyddyn.

Mae'r Gwasanaeth Digartrefedd wedi gweithio'n ddiflino dros y flwyddyn ddiwethaf i geisio lleihau ein dibyniaeth ar lety dros dro - hynny o safbwynt moesol er mwyn sicrhau bod ein cleientiaid yn cael eu lletya mewn llety addas, a hefyd o safbwynt ariannol er mwyn lleihau ein gwariant ar lety anaddas. Mae'n braf adrodd bod ymdrechion ein swyddogion i atal mwy o achosion, tynhau trefniadau, a bod yn fwy cadarn ein safiad mewn rhai achosion priodol wedi dwyn ffrwyth - yn 2024/25, cafodd lleoli mewn llety argyfwng, lleihad o bron i 100 o aelwydydd o gymharu â 2023/24.

Rydym yn dechrau gweld cynnydd yn y nifer sydd mewn llety dros y deufis diwethaf, fel y dangosa'r graff ar y dde, a byddwn yn monitro hynny'n agos dros yr wythnosau i ddod.

O ran cyflwyniadau digartrefedd, mae'r rhain wedi parhau ar lefel gyson dros y flwyddyn, ac yn debyg i'r patrwm a welwyd y llynedd. Yn wir, erbyn diwedd Mawrth, roedd y nifer a gyflwynodd yn ddigartref dros y flwyddyn yn 956 aelwyd (37 aelwyd yn llai na'r nifer yn 2023/24).




# TAI 09: Gwasanaeth Digartrefedd: Lesu Sector Preifat (LSP)

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Nifer o ddyddiau ar gyfartaledd mewn tŷ dros dro (trwy Lesu Sector Preifat)

Mae lleihad bychan eto yn Ebrill yn yr amser mae aelwyd yn ei dreulio mewn eiddo ar les o'r sector preifat (LSP) - 402 diwrnod, lleihad o 2 diwrnod o gymharu â mis Mawrth.

Mae hyn yn bennaf oherwydd y prinder difrifol o dai addas a fforddiadwy tymor hir yn y sir. Mae’r galw uchel am dai cymdeithasol, diffyg argaeledd eiddo un ystafell wely ac eiddo addas, ynghyd â’r pwysau cynyddol ar y farchnad rhentu breifat – sy’n cael ei yrru gan renti uwch a llai o landlordiaid yn fodlon gosod i bobl sy’n derbyn budd-daliadau – i gyd yn cyfrannu at oedi wrth sicrhau opsiynau symud ymlaen. O ganlyniad, er bod patrwm y data yn awgrymu lleihad calonogol yn y dyddiau a dreulir yn y math yma o eiddo o gymharu â'r un adeg y llynedd, credwn fod LSP yn cael ei ddefnyddio’n aml y tu hwnt i’w ddiben dros dro gwreiddiol ac yn arwain at unigolion a/neu deuluoedd yn treulio amser rhy hir cyn cael cynnig llety parhaol.



# TAI 11: Tîm Opsiynau Tai


Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Dyddiau ar gyfartaledd ar restr aros am dŷ cymdeithasol (ac eithrio band 4)

Ers dros flwyddyn, mae'r dyddiau ar gyfartaledd ar restr aros am dŷ cymdeithasol wedi sefydlogi o dan 700 diwrnod wedi cyfnod cyson dros hynny. mae'r nifer dyddiau wedi lleihau dros 10 diwrnod rhwng mis Mawrth ac Ebrill, o 695 i **684**. Mae ceisiadau ym mand 1a ar gyfartaledd yn disgwyl 684 o ddiwrnodau i gael eiddo ac yn y band yma mae'r nifer uchaf o osodiadau hefyd, 35 allan o 41 o osodiadau.


Mae'r tîm yn parhau i dderbyn nifer uchel o alwadau a gohebiaeth - derbyniwyd 3,185 o e-byst ym mis Mawrth, ar ben delio â 128 o ffurflenni cais ac 57 o ddogfennau cefnogi ceisiadau. Mae'r tîm yn llwyddo i brosesu ceisiadau mewn 4.17 diwrnod ar gyfartaledd, sydd yn 3 diwrnod yn gynt na'r mis diwethaf. Fodd bynnag, disgwyliwn y bydd yr amser prosesu yn cynyddu dros y mis neu ddau nesaf wrth i'r tîm ymgymryd â'r gwaith hanfodol o brofi system newydd y tîm.

Mae'r gwaith hwnnw ar sefydlu system newydd yn parhau, ac mae oedi pellach ar ochr y datblygwr wrth i lwytho data hanesyddol i'r system newydd fod yn rhwystr. Ni fu'n bosib lansio'r system ar 31 Mawrth fel y bwriedid, ac rydym yn disgwyl amserlen ddiwygiedig gan y cwmni yn dilyn camau esgoli gan y Cyngor.




Gosodiadau yn y mis diwethaf

| Band 1A | Band 1B | Band 2 | Band 3 | Band 4 |
|---|---|---|---|---|
| 35 | 1 | 5 | 0 | 0 |



# TAI 12: Tîm Opsinau Tai


Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Canran o'r holl osodiadau tai cymdeithasol a osodwyd i berson lleol gyda chysylltiad Gwynedd

Ym mis Mawrth ac Ebrill 2025, aeth 98% o'r gosodiadau tai cymdeithasol i berson neu deulu lleol gyda chysylltiad â Gwynedd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, ar gyfartaledd mae 96% o osodiadau wedi mynd i bobol gyda chysylltiad â Gwynedd, yn unol â'r hyn a ddiffinnir gan y Polisi Gosod Tai Cyffredin, ac sy'n ofyn statudol arnom fel Cyngor.

Paratowyd 148 o restrau aros i'r Cymdeithasau Tai gan y tîm ym mis Mawrth, a 77 Ebrill. Bu cynnydd sylweddol ym mis Mawrth o gymharu â mis Chwefror, lle bu i 72 gael eu paratoi. Mae'r cynnydd yn bennaf yn sgil datblygiad newydd Maes Deudraeth, Penrhyndeudreth, lle mae rhai teuluoedd eisoes wedi symud i mewn ac eraill yn symud i mewn ym mis Mai. Rydym yn rhag-weld rhagor cynnydd yn y gosodiadau dros y misoedd nesaf hefyd, wrth i waith atgyweirio eiddo rhai o'r cymdeithasau tai gwblhau.



# TAI 13: Tlodi Tanwydd

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Nifer o dai sydd wedi gweld cynnydd yn eu Tystysgrif Perfformiad Ynni

**Cyfanswm sydd wedi cynyddu EPC:** 753


Mae hwn yn fesurydd sydd yn edrych ar gynnydd mewn lefelau EPC ar dai sydd wedi derbyn cymorth Eco 4. Dechreuodd y Cynllun Eco 4 gychwyn yn Hydref 2022 ac mae'r data ar gyfer mis Mai 2023 yn y graff isod yn gyfuniad o 8 mis o ddata. Rhwng Hydref 2022 a Ebrill 2025 mae 753 o dai wedi gweld gwelliant yn eu perfformiad ynni gyda codiad yn yr EPC (*Energy Performance Certificate*) gyda 70 wedi cynyddu i A,563 i B a 101 i C. Mae hyn yn golygu bod gwariant o dros £10M wedi ei wneud ar dai yng Ngwynedd ers cychwyn ECO 4.

Ochr-yn-ochr â hyn mae 1430 o geisiadau wedi eu cymeradwyo yn yr un cyfnod. Mae'r gwelliannu sy'n digwydd yn cynnwys ynysu'r waliau a toeau, cynlluniau gwres a paneli solar. Tynnir sylw aelodau y bydd gwahaniaeth amlwg rhwng y ffigwr cymeradwyo a'r ffigwr cynnydd wrth adrodd bob amser. Mae amryw o resymau am y gwahaniaeth yma:


- Yr amser mae'n cymryd contractwyr i osod y mesurau
- Tywydd
- Ardal Cadwraeth
- Y cwsmer eisiau oedi/stopio am resymau personol
- Pobl yn tynnu'n ôl am wahanol rhesymau (e.e. dim eisiau y trafferth o ail-addurno)
- Dim digon o gyllid yn cael ei gynnig gan y cyllidwyr sy'n golygu bod y cynllun yn anhyfyw
- Arianwyr yn araf yn rhoi sêl bendith

O ganlyniad bydd y data yn newid yn gyson wrth i waith gael ei gwblhau.


Nifer misol wedi cynyddu EPC




Faint o gynnydd mewn EPC (mewn graddau)




Gradd EPC newydd y tai



| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD** | 12fed o Fehefin, 2025 |
| **TEITL** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Gofal |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Cyflwyno perfformiad yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd dros y flwyddyn ddiwethaf gan sicrhau fod pobl Gwynedd yn derbyn y gwasanaethau gorau posib. |
| **AWDUR** | Sharron Williams Carter, Pennaeth Adran Plant Gweithredol Dros Dro ac Aled Gibbard, Pennaeth Adran Plant Adnoddau Dros Dro |
| **AELOD CABINET** | Cynghorydd Menna Trenholme |

## 1. Pam fod angen ei graffu?

Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor gael eu bodloni fod gennyf i, yr Aelod Cabinet Gofal, afael ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

## 2. Cefndir / Cyd-destun

### 2.1 Cefndir / Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor; gwaith dydd i ddydd yr Adran; ynghyd â'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd a wnaed hyd at ddiwedd Mawrth, 2025, gan gydnabod ei bod yn parhau'n ddyddiau cynnar yng nghyd-destun rhai o'r addewidion sy'n newydd yn y ddogfen ers Ebrill y llynedd eleni. Er hynny, mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod herio perfformiad, ac rwyf yn fodlon gyda pherfformiad yr Adran.

### 2.2 Rhesymeg a chyfiawnhad

**Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor**

Mae gan Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ddau brosiect yng Nghynllun y Cyngor, Cynllun Awtistiaeth a Chynllun datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan.

Mae'r cynllun cyntaf, Cynllun Awtistiaeth yn ffynnu. Mae'r rhaglen hyfforddiant i staff rheng flaen yn parhau gyda'r amcan o fod yn awdurdod lleol sydd yn deall ac yn ymwybodol o awtistiaeth. Law yn llaw â hyn mae grwpiau megis 'Paned a Sgwrs' i rieni a gofalwyr a chlwb Niwro i bobl ifanc yn llwyddiannus a'r bwriad yw edrych ar ehangu a hyfforddi gweithwyr eraill i hwyluso a rhedeg grwpiau a rhaglenni cefnogi ac addysgol. Parhau hefyd mae'r cydweithio ag Adran Addysg, staff mewnol ac allanol ac ymgysylltu â'r trydydd sector. Nid oes rhestr aros ar gyfer y tîm Awtistiaeth yn bresennol, ond rhagdybiwn na fydd

hyn yn parhau am hir gan fod galw uchel am y gwasanaeth. Hyderwn nad oes pryderon presennol yn sgil y cynllun hwn, a bod y gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu a hyrwyddo cyfleodd i unigolion ag awtistiaeth. Pwysig yw nodi fod arian ar gyfer y cynllun hwn yn dod i ben ym 2027 ac felly mae hyn yn creu risg yn y tymor hirach. Byddwn angen ystyried sut i sicrhau parhad gwasanaeth i'r dyfodol i'r adnodd gwerthfawr hwn.

Mae'r Cynllun datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartref grŵp bychan wedi datblygu'n sylweddol dros y flwyddyn a aeth heibio. Penodwyd staff i'r cartref cyntaf ym Morfa Bychan a chroesawyd dau blentyn i'r lleoliad. Prynwyd hefyd dau eiddo ychwanegol, a chychwynnwyd ar y gwaith paratoi i'w cael i safon cofrestriad. Parhau i ddisgwyl ydym am gofrestriad swyddogol i'r cartref cyntaf, er hyn nid ydym yn pryderu gan ein bod mewn cysylltiad parhaus ag Arolygiaeth Gofal Cymru a dylid cwblhau'r cofrestriad yn fuan iawn.

**Gwaith dydd i ddydd yr Adran**

Yn bresennol mae 280 o blant mewn gofal yma yng Ngwynedd. Newyddion positif ddaeth dros y flwyddyn ddiwethaf yw clywed fod 6% o blant wedi gadael gofal ac wedi dychwelyd adref. Canran bositif arall y dylid amlygu yw'r nifer o gynadleddau achos ble bu llais / barn y plentyn (5+oed) ei glywed. Roedd y canran hwnnw'n 97%, sy'n nodwedd i'w glodfori. Ynghyd a'r ffaith fod gan 100% o bobl ifanc ôl-ofal gynghorydd personol.

Ar y llaw arall mae rhaid nodi pryder yn y nifer o gyfeiriadau y ceir i'r tîm derbyn. Nodir mai hon yw'r flwyddyn prysuraf i'r tîm ers ei sefydlu. Gyda hyn mae'r tîm yn teimlo'r pwysau gyda'r nifer o gyfeiriadau ond hefyd gyda chymhlethdod yr achosion. Teimlo'r pwysau mae Gwasanaeth Derwen hefyd, gyda dros bum cant o achosion yn agored iddynt. Mae nifer uchel o achosion a diffyg staff yn creu pryder a phwysau gwaith uchel. Rhaid nodi hefyd fod y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ar hyn o bryd yn rheoli 149 o achosion, hyn yn gynnydd pellach o 17.3% ers Medi 2024. Gwelwn batrwm clir fod y galw ar yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn codi ac felly'r pwysau sydd ar ein staff. Am y tro cyntaf erioed mae'r nifer cyfeiriadau atom bron a chyrraedd 8,000, sydd yn gynnydd o 5%.

Rhaid pwysleisio ein bod wedi cydnabod y pwysau gwaith cynyddol hwn ar ein gweithlu. Yn ystod y misoedd diwethaf rydym wedi cyflwyno bid ariannol er mwyn penodi nifer o staff i oresgyn y broblem a lleihau pwysau. Rydym wedi hysbysebu tair swydd gweithiwr cymdeithasol a phedair swydd ymarferydd cymdeithasol. Gwyddwn y bydd yn heriol denu staff, yn enwedig staff profiadol a chymwys, ond gydag amser gobeithiwn y daw'r ychwanegiadau hyn a rhywfaint o ryddhad i'n gweithlu cydwybodol.

**Adroddiadau Archwilwyr Allanol (os yn berthnasol)**

Nid oes adroddiadau archwilwyr allanol i'w nodi'n bresennol nac y chwaith pryder yn codi o'r gofrestr risg gan fod nifer helaeth wedi lleihau o ran effaith a siawns.

**3. Ymgynghori**

Mae'r adroddiad wedi ei greu yn seiliedig ar wybodaeth a chynnwys cyfarfod diweddaraf i herio a chefnogi perfformiad yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, gyda'r Cyfarwyddwr, yr Uwch Swyddog Gweithredol a minnau yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

**Atodiadau**

**Atodiad 1:** Adroddiadau cynnydd cerrig milltir prosiectau Cynllun y Cyngor
**Atodiad 2:** Mesuryddion Perfformiad yr Adran

# Herio a Chefnogi Perfformiad

## Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

## Cyfnod : 2024/2025

# Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd

Pwrpas : Dwi eisiau i chi sicrhau fy mod yn cael fy nghadw yn saff, fy niogelu rhag niwed, yn cael bywyd sefydlog, ac yn cael pob cyfle a help i gyrraedd fy mhotensial.

Nifer Plant mewn Gofal

280 (31/03/25)

Canran o gynadleddau achos lle bu glywed llais/barn y plentyn (5+oed)

**97%**

Canran o blant mewn gofal sydd wedi cael 3 lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn (Cronnus)

**3%**


Canran plant gafodd eu trafod mewn cynhadledd amddiffyn gychwynnol wedi eu cofrestru

**88%**

Cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau

**98%**

**Plant mewn gofal**





Nifer o blant sydd yn geiswyr lloches


**4 (16-17 oed)**
**26 (18+)**

Canran plant mewn gofal wedi dychwelyd adref (allan o ofal) yn ystod y flwyddyn (cronnus)

**6%**

# Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd








**Arweinydd – Marian Parry Hughes**

# Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd : Tîm Derbyn

Nifer cyfeiriadau (IAA)

**7785**




**Trosolwg o Berfformiad:**

Dyma flwyddyn prysuraf ir Tîm ers sefydlu.

Y Tîm yn teimlo y pwysau, achosion yn gymhleth,

Achosion diogelu niferus, ychydig o newid staff a gallai

Achosi pwysau ychwanegol.

**Arweinydd : Sharron Williams Carter**

# Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd :Trobwynt

**Pwrpas :** Dwi eisiau i chi sicrhau fy mod yn cael fy nghadw yn saff, fy niogelu rhag niwed, yn cael bywyd sefydlog, ac yn cael pob cyfle a help i gyrraedd fy mhotensial.

Nifer o blant wedi bod yn agored i'r tîm yn ystod y flwyddyn.

208

Canran o achosion lle dangosir cynnydd yn unol a phwrpas yr ymyrraeth

83%

**Trosolwg o berfformiad:**

- 66 o blant wedi parhau i fyw adref gyda'i teuluoedd yn dilyn ymyrraeth.
- 9 plentyn allan o ofal yn llwyr yn dilyn asesiadau llys i diddymu'r gorchmynion gofal (2 SGO & 7 Dim gorchymyn).
- 10 o blant wedi gallu aros yn ei lleoliadau maeth yn dilyn cyfnod o ansefydlogrwydd.
- 16 o blant wedi derbyn cymorth gan y tîm Drws Cywir.

**Arweinydd: Aled Gibbard**

# Maethu

**Sylwad gan blentyn / rhiant maeth :**

Jake, Young Care Experienced person (now 26)

“In the past, if I said I was in care people’s instant reaction would be to say I'm sorry to hear. But they shouldn’t be sorry. I see it as a really good thing to be in care because it gives young people a better life, a better opportunity at doing something they probably would never have done otherwise.

“I see Sian and the whole family just as my family now, they are my first point of contact.”

- **280 o blant mewn gofal ar 31/3/25**
- **66% mewn gofal maeth**

**Teulu / Ffrindiau** (Cronnus)

Cyfeiriadau - 59

Asesiadau Addasrwydd – 53

Asesiadau Llawn – 22


**Cyffredinol** (Cronnus)

Ymholiadau cychwynnol – 87

Ymweliadau cychwynnol - 17

Asesiadau Llawn – 15
Y gyfradd troi o ymholiad i asesiad llwyr – 17%

Gofal Maeth 31/3/25















**Trosolwg o berfformiad.**
**Arweinydd: Aled Gibbard**

# Prosiect Cynllun y Cyngor :- Cynllun Awtistiaeth

**Pwrpas** : Hyrwyddo unigolion awtistig a'u teuluoedd i fynnu ac i fyw bywyd i'w llawn potensial.

**Trosolwg Perfformiad : -**

- Niferoedd staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant lefel 1 a 2 wedi cynyddu yn sylweddol dros y flwyddyn. Gweithwyr o fewn gwasanaethau cymdeithasol sydd a dyletswyddau asesu yn cwblhau hyfforddiant lefel 3 a 4.

- Grwpiau megis Paned a sgwrs i rieni/ gofalwyr, clwb Niwro i pobl ifanc. Grŵp EMA (i bobl ifanc cael dysgu a deall am y gwahaniaeth yn y ffordd maent yn rhyngweithio ar byd.) Grŵp cefnogi rhieni/ gofalwyr CYGNET. Yn datblygu ac yn llwyddiannus iawn, niferoedd sy'n mynychu yn cynyddu.

- Unigolion awtistig (plant, pobl ifanc, oedolion, rhieni a gofalwyr) yn rhan or broses ymgysylltu pan yn datblygu y gwasanaeth.
- Grŵp rhanddeiliaid wedi sefydlu ac yn cyfarfod bob chwarter.

- Cyfarfodydd a rhyngweithio cyson ar adran addysg a Tim ND

- Llwybr clir wedi sefydlu ar gyfer cefnogaeth, arweiniad a ymgynghori a gweithwyr proffesiynol. Awtistiaeth Gwynedd yn wasanaeth eilaidd o fewn gwasanaethau cymdeithasol, felly cefnogaeth yn cael ei ddarparu ar sail 1-1 yn dilyn cais gan weithiwr i gwblhau darn o waith arbennig.

- Gwaith sydd yn cael ei gwblhau ar sail 1-1 yn cael ei mesur yn erbyn marcwyr lles drwy cwblhau canlyniad seren (outcome star). Adnodd sydd wedi'u cynllunio i gefnogi newid cadarnhaol a cynnydd mewn lles, gyda graddfeydd wedi'u cyflwyno mewn siâp seren ac wedi'u mesur ar 'Daith Newid' wedi'i ddiffinio'n glir.

- Gwaith wedi cychwyn o ran ymgynghori ar trydydd sector. Cynrychiolaeth o'r trydydd sector yn mynychu y grŵp rhanddeiliaid, mae'r gwaith yma yn parhau ac yn datblygu

**Arweinydd :** Aled Gibbard

| Nifer o ymholiadau GGC | Nifer o achosion yn derbyn ymyrraeth uniongyrchol ac anuniongyrchol | Nifer wedi cwblhau hyfforddiant |
|---|---|---|
| 267 | 145 | E Modiwl L1 -1115<br>E modiwl L2- 596<br>E modiwl L3- 278<br>Gwaith cymdeithasol drwy lens ND- 88 |

"Dwi wedi dysgu lot am fy hun ers gweithio hefo'r tîm, Dwi rwan yn deall ac yn gallu rheoli fy emosiynau, dwi wedi datblygu hyder i ail gysylltu a hen ffrindiau ond mwy na dim dwin gwbo rwan fy mod i yn iawn fel ac ydwi, dwim angen cuddiad na trio newid i neb, dwin deallt y ffordd dwin ymgysylltu ar byd o fy nghwpas.
DWIN WELL NA OK, DWIN OSYM!!"
**(Person ifanc)**



Digwyddiad gwych! Rydym wedi ein syfrdanu gan fewnwelediadau sydd wedi eu darparu heddiw ar ein cyfer mewn maes yr ydym wedi bod yn ei chael hi'n anodd ei ddeall ers amser maith. Diolch.

"The paned and sgwrs sessions are invaluable to me, I enjoy attending and talking to other parents about my experiences and issues, being there is a breath of **fresh air. It's good to see** professionals face to face to ask for information and advice, everyone is so welcoming I really appreciate and thank you"

**(Parent)**

**Cwrs gwych! Fe wnes i wir mwynhau cymaint, yn enwedig y storiâu personol am Awtistiaeth ac ADHD. Dwi yn teimlo'n wirioneddol gysylltiedig â'r cynnwys, ac fe wnaeth eich ymagwedd feddylgar fy helpu i ddeall y profiadau hyn yn well o safbwynt personol.**
**Roedd eich arbenigedd a'r ffordd y gwnaethoch rannu'r wybodaeth bwysig hon yn ddiddorol ac yn oleuedig. Edrychaf ymlaen at barhau â'm dysgu yn y maes hwn, ac rwy'n gwerthfawrogi'r cyfle i ddysgu oddi wrthych. Diolch eto am sesiwn mor effeithiol.** **(Gwithiwr Cefnogi teulu yn dilyn hyfforddiant Gwaith Cymdeithasol drwy lens niwroamrywiol)**

# Prosiect Cynllun y Cyngor :-
# Cartrefi Grŵp Bychain

Pwrpas : I'w ddatblygu

**Trosolwg Perfformiad : -**

## Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi:

- Penodwyd staff, gan gynnwys staff banc, ar gyfer cartref Golygfa'r Gest, Morfa Bychan.
- Agorwyd Golygfa'r Gest ac ers Mawrth, 2024 mae dau blentyn yn byw yno.
- Bu'm yn brysur yn ceisio cael cofrestriad CIW ar gyfer Golygfa'r Gest, dylid y gwaith yma ddod i ben a gobeithiwn dderbyn y cofrestriad yn yr wythnosau nesaf.
- Prynwyd ail a trydydd tŷ, lleolir y tai yn Neiniolen ac Edern.
- Rydym yn y broses o fapio'r gwaith adnewyddu sydd angen ei wneud ar yr ail a thrydydd tŷ. Bydd y gwaith adnewyddu hwn er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd safon CIW.

MESURAU

i'w datblygu ar gyfer 2024-25

## Camau Nesaf:

- Cychwyn y gwaith o gael cofrestriad CIW i'r ail a'r trydydd tŷ.
- Byddwn angen efelychu digwyddiad recriwtio Golygfa'r Gest ar gyfer y ddau eiddo newydd yn y misoedd nesaf, gan ganolbwyntio ar Ddeiniolen yn gyntaf.







**Arweinydd : Aled Gibbard**

# Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd : Tîm Ôl Ofal

Pwrpas : Dwi eisiau bod yn annibynnol a chael help pan dwi angen o.

| Canran pobl ifanc ôl-ofal sydd wedi bod yn ddigartref | Canran pobl ifanc ôl-ofal gyda cynghorydd personol | Canran pobl ifanc ôl-ofal sydd wedi bod mewn addysg, hyfforddiant neu waith am o leiaf tri mis (12 mis ar ôl gadael gofal) |
|---|---|---|
| Cronnus – 5% | **31/03/2025 -100%** | **66%** |

**Trosolwg o berfformiad:**

- Yn ystod gwyliau'r Pasg mi oedd y gweithwyr Ôl Ofal wedi ceisio dod a grŵp o bobol ifanc ai deleuoedd at ei gilydd, fel rhan o gyfle i gymdeithasu ag adeiladu perthnasau. Yn anffodus er bod nifer wedi son ei fod nhw am fynychu'r grŵp, mi wnaeth mond un person ddod yn y diwedd. Er hynny mae'r gweithwyr Ôl Ofal yn adnabod y sialens sydd yn wynebu pobol ifanc o deimlo'n unig, ag heb lawer o berthnasau i'w gefnogi, ag mi fyddant yn parhau i edrych ar gyfleoedd i'r grwpiau ddod at ei gilydd yn y dyfodol agos.
- Mae cael llety addas i unigolion symud ymlaen o ofal yn parhau i fod yn her, ag bwlch amlwg i unigolion gydag anghenion cymhleth. Mae yna gyfres o gyfarfodydd wedi trefnu gydag adran ddigartref, i edrych ar sut allwn gydweithio i gyfarfod yr anghenion llety sydd yn codi i unigolion fel maent yn gadael gofal. Ar ochor hynny mae trafodaethau gyda GISDA i allu lletya pobol ifanc Ôl Ofal yn eiddo sydd ganddynt yng Nghaernarfon. Yn obeithiol fydd hwnnw yn opsiwn ychwanegol ar gael i bobol ifanc fel maent yn trosglwyddo allan o Ofal, a rhoi'r sefydlogrwydd sydd angen fel iddynt droi'n oedolion.

**Arweinydd : Aled Gibbard**

# Gwasanaeth DERWEN

**Pwrpas : - Dwi eisiau cael fy nerbyn fel ag yr ydwyf ac yn cael yr un cyfleoedd ag unrhyw blentyn arall.**

| Nifer o asesiadau a gwblhawyd: 30 | Plant a pobl Ifanc ar agor I'r gwasanaeth 31/03/25: 509 | Nifer cyfeiriadau a dderbyniwyd (newydd) 128 |
|---|---|---|

**Trosolwg o berfformiad:**

**Trosolwg o'r Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol – 2025 -** Mae'r gwasanaeth Therapi Galwedigaethol wedi bod dan straen sylweddol drwy gydol y flwyddyn, gyda rhestr aros sydd wedi ymestyn dros chwe mis. Gwaethygwyd y sefyllfa ym mis Ionawr 2025 pan ymddiswyddodd y therapydd galwedigaethol llawn amser, ac aeth y therapydd rhan-amser ar absenoldeb mamolaeth. O ganlyniad, bu'r gwasanaeth heb unrhyw ddarpariaeth OT am gyfnod. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r Prif Therapydd Galwedigaethol ar gyfer Gwasanaethau Oedolion, sydd wedi cynnig goruchwyliaeth a chefnogaeth ar gyfer yr achosion mwyaf heriol yn ystod y cyfnod anodd hwn. Er i ni hysbysebu'r swyddi gwag ddwywaith heb lwyddiant, rydym wedi parhau i wneud pob ymdrech i gynnal rhywfaint o wasanaeth sylfaenol. Yn ddiweddar, fel ymateb i'r galw parhaus ac er mwyn delio â'r achosion mwyaf brys, rydym wedi comisiynu therapydd galwedigaethol preifat i weithio ar nifer fach o achosion sydd wedi bod yn aros hiraf. Mae'r cam dros dro hwn wedi rhoi rhywfaint o ryddhad i'r sefyllfa, wrth inni barhau i ystyried opsiynau ar gyfer recriwtio a chynaladwyedd y gwasanaeth yn y tymor hwy.

**Perfformiad a Chynhwysedd y Tîm Gwaith Cymdeithasol – 2025 -** Mae'r tîm Gwaith Cymdeithasol wedi wynebu nifer o heriau sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Un o'r prif bryderon yw'r cynnydd parhaus yn y baich achosion, gyda'r cyfartaledd erbyn hyn yn sefyll ar 29 achos i bob gweithiwr cymdeithasol. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r uchafswm dangosol o 15 achos a argymhellir gan astudiaeth *Setting the Bar*, a gomisiynwyd gan Social Work Scotland. Mae'r argymhelliad hwn wedi'i lunio i leihau'r perygl o losgi allan ac i sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn gallu darparu cefnogaeth effeithiol a diogel i blant a'u teuluoedd. Yn ogystal â'r baich achosion cynyddol, mae nifer yr achosion diogelu a'r achosion cymhleth wedi cynyddu'n sylweddol dros y deuddeg mis diwethaf. Mae hyn wedi lleihau gallu'r tîm ymhellach i gydymffurfio'n gyson â'r ddeddfwriaeth, yn enwedig wrth adolygu Cynlluniau Asesu a Chefnogi Plant (CASP) yn amserol ac wrth roi cefnogaeth barhaus i deuluoedd sydd ei hangen fwyaf. Mae'r pwysau ar y capasiti'n tanlinellu'r angen am adolygiad strategol o gynllunio'r gweithlu a dyrannu adnoddau, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r arferion gorau a diogelu lles y staff.

**Gwasanaeth Gofal a Chefnogaeth i Gwsmeriaid – Trosolwg Blynyddol 2025** Dros y deuddeg mis diwethaf, mae Gwasanaeth Gofal a Chefnogaeth i Gwsmeriaid wedi gweld cynnydd sylweddol yn y galw. Mae hyn wedi rhoi pwysau mawr ar y ddau Swyddog Cwsmer a Dyletswydd, gan fod rhestrau aros hir ar gyfer gwasanaethau gan Dîm Nyrsio Derwen wedi effeithio'n uniongyrchol ar yr achosion y maent yn eu dal. O ganlyniad, mae eu gallu i gynnal asesiadau cychwynnol mewn modd amserol wedi'i leihau'n sylweddol, ac mae hyn wedi arwain at oedi amlwg yn y broses o symud achosion newydd ymlaen i'r Cyfarfod Cynllunio Cychwynnol. Tra bo Derwen gynt yn gweithredu polisi o gynnal y cyfarfod hwn erbyn y trydydd mis ar ôl i blentyn gael ei gyfeirio, rydym bellach yn gweld plant yn gorfod aros hyd at saith mis cyn cynnal y cyfarfod. Yn ogystal, mae ansawdd y cyfeiriadau ac absenoldeb diagnosis ffurfiol yn parhau i effeithio ar effeithlonrwydd y gwasanaeth. Mae'r ffactorau hyn wedi arwain at oedi pellach ac wedi ychwanegu at y pwysau ar staff rheng flaen, gan dynnu sylw at yr angen i adolygu'r llwybrau cyfeirio, prosesau diagnosis, a chapasiti cefnogaeth yn ehangach ar draws y system.

**Arweinydd : David Lewis**

# Gwasanaeth Teulu Gwynedd
## Gofal Plant a Chwarae

**Pwrpas : Cefnogi lleoliadau gofal plant i ddarparu gwasanaeth gofal, chwarae ac addysg gynnar o safon uchel**
**Meithrinfa Plas Pawb: darparu gofal o safon ragorol i bob plentyn**

46 o blant a 24 o rieni wedi mynychu 2 sesiwn y trelar chwarae yn ystod hanner tymor Chwefror

62% o ddarparwyr ar Rhestr Darparwyr Gofal Plant Cymeradwy y Cyngor

10 Adroddiad AGC wedi cyhoeddi
5% - Rhagorol
87.5% - Da
7.5% - Boddhaol

Meithrinfa Plas Pawb Holiaduron rhieni - 100% wedi sgorio 5 neu 6 allan o 6 am y lefel gofal

Casglu barn darparwyr gofal plant ar ddiwedd cefnogaeth gan y gwasanaeth
Holiaduron yn mynd allan
Mesurydd i'w ddatblygu - dadansoddi'r holiaduron

**Parhad :Trosolwg o berfformiad:**

- 22 darpariaeth gyda plant yn cael eu ariannu drwy Gofal Plant 2 oed. Cadarnhad gan Llywodraeth Cymru i ychwanegu codau post ychwanegol yn ardal Bethesda a Bangor i cynllun Dechrau'n Deg, fydd hyn yn galluogi fwy o deuluoedd derbyn cefnogaeth
- Grantiau cyfalaf bach gwerth £185,000 wedi cymeradwyo yn ystod y cyfnod, fydd yn gwella cyfleusterau ag ansawdd rhai o ddarparwyr gofal plant y Sir
- Prosiectau Cyfalaf mawr – Cylch Meithrin Tywyn wedi cofrestru gyda AGC a symud mewn i'r caban newydd. Parhau i weithio ar prosiect Bro Lleu, Ein Harglwyddes a Hirael
- Meithrinfa Plas Pawb wedi cwblhau'r adroddiad SASS i AGC, hunanarfarniad yn sgorio 'da' ar draws y meysydd asesu. 2 aelod staff wedi mynychu hyfforddiant dreifio trelar, gwaith ar y gweill yn datblygu'r ardaloedd tu allan ag archebu adnoddau newydd. Adborth Rhieni "Gwasanaeth arbennig iawn" "Mae ein mab wrth ei fodd yn dod i Blas Pawb. Allwn ni ddim diolch digon am y cyfleoedd, y profiadau, yr anogaeth a'r gofal arbennig mae'n ei dderbyn"
- Cytunwyd 7 cais grant i ddarparwyr ar y fframwaith gweithgareddau i gynnal gweithgareddau yn ystod hanner tymor Chwefror
- Trelar Chwarae wedi ymweld a Bethesda a Maesincla dros gwyliau hanner tymor Chwefror. Adborth rhieni: Gwych! Da bod allan yn yr awyr iach! Amazing, da i'r plant 😊, Awr gorau 😊 Gwych









**Arweinydd : Sioned Owen a Rachel Jones**

# Gwasanaeth Teulu Gwynedd

## Gweinyddiaeth a Busnes

TEULU GWYNEDD

**Pwrpas : Darparu cefnogaeth gweinyddol, busnes a gofal cwsmer o safon uchel ar gyfer holl rhanddeiliaid**

- Cynhaliwyd Diwrnod Staff gyntaf yr Uned ers rhai blynyddoedd yn ystod mis Chwefror. Cafwyd adborth gwych gan aelodau Teulu Gwynedd gan bwysleisio pwysigrwydd ei gynnal yn flynyddol ar gyfer gwarchod morâl staff, rhannu arferion da ac ysgogi cyd-weithio.
- Gweinyddu, monitro a dosbarthu arian grant ar gyfer lleoliadau Dechrau'n Deg, Gofal Plant 2 oed a'r Cynnig Gofal Plant ar gyfer darparwyr .
- Mewn ymateb i ymgynghoriad cwblhawyd gwaith ar ail-frandio'r Uned sydd nawr yn cael ei adnabod fel Teulu Gwynedd. Gwaith hyrwyddo ar y gweill i sicrhau fod y cyhoedd a rhanddeiliaid yn ymwybodol.
- Trawsffurfio Blynyddoedd Cynnar: Creu adnodd arloesol sef cyfres podlediad Mam, Dad a Magu ar gyfer trafod pwyntiau poenus magu plant mewn ffordd hwyliog a hygyrch yn y Gymraeg. 1 pennod wedi'i gyhoeddi a cynlluniau mewn lle i greu cyfanswm o 6 pennod.
- Yn dilyn y cyhoeddiad gan Addysg fod disgwyliad i blant allu toiledu cyn mynediad i ddosbarth meithrin (oni bai am anghenion ychwanegol/meddygol) sydd yn dod i rym ym Mis Medi 2025, cwblhawyd gwaith ar y cyd gyda Iechyd, Addysg, Amgylchedd a Llyfrgelloedd ar gyfer darparu adnoddau i'w dosbarthu i hybu teuluoedd Gwynedd gyda'r disgwyliad yma.
- Hyfforddiant Power BI wedi'i gyflawni i hybu sefydliad system data Teulu Gwynedd. Datblygiadau ar y gweill gyda'r bwriad o gael yn fyw erbyn Medi 2025.

| Casglu barn plant a Theuluoedd Gwynedd am wasanaethau | Llwyddiant dulliau marchnata a hyrwyddo | Nifer o blant sydd yn derbyn eu hawliad gwasanaeth Dechrau'n Deg, Gofal Plant 2 oed neu Cynnig Plant Oed: | Nifer o ymholiadau mae Gwybodaeth i Deuluoedd wedi ymateb: |
|---|---|---|---|
| Mesuryddion i'w datblygu | Mesuryddion I'w datblygu | 1,597 | 72 |



**Arweinydd : Sioned Owen ac Elen Foulkes**

# Gwasanaeth Teulu Gwynedd

## Athrawon Ymgynghorol Blynyddoedd Cynnar

TEULU GWYNEDD

**Pwrpas : : Sicrhau gofal plant a addysg feithrin o ansawdd i blant blynyddoedd cynnar Gwynedd**

Canran uchel o leoliadau yn sgorio gwyrdd ar y ddogfen arfarnu ansawdd
**Data i'w ddadansoddi**
**Mi fydd Data ar gael yn dymhorol**

Canran uchel o leoliadau wedi derbyn arolwg AGC/ESTYN da neu well .
**Mi fydd Data ar gael yn dymhorol**

Casglu barn lleoliadau yn dilyn hyfforddiant.
**Holiaduron yn mynd allan .**
**Mesurydd i'w ddatblygu - dadansoddi'r holiaduron**

Canran o'r plant yn derbyn Cofnod Datblygu Unigol wrth ddilyn proses map darpariaeth
**Mesurydd – data tymhorol**

**Trosolwg o berfformiad:**

- Wedi cynnig sawl hyfforddiant i bob lleoliad – Boys, Brains and Bodies, Worrking with Vulnerable Children.
- Dwy o'r tîm wedi mynychu hyfforddiant Darnau Rhydd ac yn barod i hyfforddi lleoliadau
- Dwy o'r tîm wedi cwblhau hyfforddiant i fod yn diwtoriaid MAKATON.
- Hyfforddiant TIS wedi ei gynnig i bob lleoliad. Holiaduron wedi i mynd allan i bob ymarferydd a fynychodd.
- Cyd weithio gyda tîm gweinyddol yr adran i allu rhoi system ddadansoddi holiaduron effeithiol mewn lle.
- Cynllun adran ar y gweill i sicrhau gwreiddio egwyddorion hyfforddiant TIS (Trainee Information Service)
- Plant Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi cael ei hadnabod yn fuan – canran gan Swyddog Arweiniol y Blynyddoedd Cynnar
- Cytundeb wedi ei lunio i hybu cyd-weithio rhwng lleoliad a rhieni i sicrhau fod canran uwch o blant wedi ei toiledu erbyn cyrraedd addysg feithrin yn yr ysgol.
- Holiaduron effaith gwasanaeth tîm y blynyddoedd cynnar ar fin mynd allan i bob lleoliad.
- **Arweinydd : Gwawr Hughes a Sioned Owen**

# Tîm Tu allan i Oriau/ EDT

Pwrpas : Dwi isho bod help ar gael i mi yn amserol mewn argyfwng gofal

| Nifer o alwadau sydd yn cael eu derbyn gan y tîm dyletswydd argyfwng | Nifer o alwadau sydd wedi derbyn penderfyniad o fewn cyfnod "shifft" | Nifer o alwadau sydd ddim wedi derbyn ymateb ar sail diffyg capasiti |
|---|---|---|
| 3644 | 3644 | **0** |

**Trosolwg o berfformiad:**

- Ymateb i alw - Yn y cyfnod o mis Ebrill 24i i Mawrth 25 mae pob galwad wedi derbyn ymateb a penderfyniad o fewn y shifft honno a fod gweithrediad priodol o fewn cyfyngiadau gwasanaeth argyfwng o'r fath, wedi cymryd lle. Derbyniwyd 3644 o alwadau, gyda 1925 o alwadau Gwynedd, 1508 Ynys Mon a'r gweddill tu allan i'r awdurdodau.
- Mae 816 o'r galwadau yn ymwneud a Plant mewn Gofal - Gwynedd 583 , Ynys Mon 219 a'r gweddill yn Awdurdodau eraill. Mae y galw yma yn aml am reoliadau dychwelyd adref i leoliad - ac os ydynt yn hwyr mae yn cael ei uchafu. Cynhelir cyfweliadau 'ar goll' gan y gweithiwr achos a gallu hynny fod am resymau diniwed lle nad oedd risg; i enghreifftiau eraill lle fod bod ar goll yn peri risg i'r plentyn, er enghraifft o gam-fanteisio.
- Digartrefedd – Yn y cyfnod diwethaf yma, mae 288 o'r galwadau yn ymwneud a digartrefedd – gan gynnwys 91 o Gwynedd. Fel nodwyd yn flaenorol mae Gwasanaeth Digartrefedd Gwynedd wedi creu trefniadau tu allan i oriau eu hunain. Mae'r trefniant yma wedi bod yn weithredol ers 6/2/24 Ers cychwyn mis Ebrill mae opsiwn digartrefedd ar wahân o fewn y dewisiadau ar y prif rhif cyswllt. er hynny mae rhai galwadau dal yn dod i EDT, gan nad yw'r trefniant newydd wedi ei hysbys i asiantaethau partneriaeth sydd yn dod i cysylltiad a pobl digartref. Mae'r nifer o alwadau I I'r Tim dyletswydd argyfwng yn ymwneud a Gwynedd yn parhau i leihau o dan y drefn newydd ac yn lleihau'r risgiau I'r gwasanaeth yma.
- Iechyd Meddwl – mae 422 o'r galwadau yn ymwneud a materion iechyd meddwl gan gynnwys asesiadau ffurfiol dan y Ddeddf. o rhain mae 222 o Wynedd. mae 107 o asesiadau o dan y ddeddf Iechyd meddwl wedi' cwblhau gen y Tim dyletswydd argyfwng.



**Arweinydd – Dafydd Paul**

# Gwasanaeth Teulu Gwynedd
## Cefnogi Teuluoedd

TEULU GWYNEDD

**Pwrpas : Cefnogi a darparu'r cyfleoedd gorau i deuluoedd, plant a phobl ifanc Gwynedd.**

**51** cyfeiriad newydd am gefnogaeth **Rhiantu/Ymddygiad** Arfon a Dwyfor

**37** cyfeiriad newydd am gefnogaeth **Datblygiad Cynnar** Gwynedd

**77%** o rieni yn datgan fod gwelliant yn eu sgiliau rhiantu yn dilyn cefnogaeth

**73%** o rieni yn datgan fod gwelliant yn sgiliau iaith, cyfathrebu, chwarae a datblygiadol eu plant

**Trosolwg o berfformiad:**

- Wedi cynnal nifer o sesiynau Hwyl i Deuluoedd ac i Tadau, yn cynnwys Live Music Cymru yn Bethesda a Dolgellau, sesiynau Picnic Tedis a Syrcas.
- Hyfforddiant Triple P Baby wedi ei gynnal i 12 o weithwyr Trobwynt, Iechyd a Cefnogi teuluoedd. Hyfforddiant Stepping Stones, wedi ei gynnig i Timau Awtistiaeth, Trobwynt, Drws Cywir a Cefnogi Teulu. Hyfforddiant VR Unbroken wedi bod yn cyflwyniad gwych i'r tîm mewn dull hollol wahanol.
- Ap Dechrau'n Deg: Niferoedd heb godi yn dilyn sgwrs gyda'r cwmni ac wedi trio sawl awgrymiad. Nifer wedi cofrestru yn rhan fwyaf o weithwyr yr Uned a neu gweithwyr eraill o fewn y maes. Parhau i fod yn niferoedd isel felly wedi trafod dod a'r cytundeb i ben.
- Her fwyaf ydi'r trosiant staff yn y cyfnod diwethaf, 3 aelod ar cyfnod Beichiogrwydd, cytundebau byr rhan grantiau a staff yn symud i swyddi gyda mwy o sicrwydd.
- Paratoadau mewn lle ar gyfer trosglwyddo gweithwyr Cefnogi Teulu Barnardos i'r Uned. Mi fyddent wedi'i lleoli swyddfeydd ym Mhenarlâg, Llyfrgell Blaenau a Canolfan Deulu Dolgellau. Bydd angen gweithio ar ail strwythuro'r tîm yn sgil y penodiadau newydd.

**Arweinydd : Sue Layton a Sioned Owen**

# Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

Pwrpas : Dwi isio bod yn saff a hapus trwy bywyd heb droseddu

| Dechreuwyr Tro Cyntaf /Number of First Tme Entrants | Cyfraddau Aildroseddu / Reoffending Rate | Cyfradd Dalfa / Custody Rate | Llwyth Achos / Number of Caseload |
|---|---|---|---|
| 43 | 36.5% | 0 | 149 |

**Trosolwg o berfformiad:**

Am y cyfnod rhwng Ionawr 24 a Rhagfyr 24, mae nifer y Newydd-ddyfodiaid am y tro cyntaf yn parhau ar 43, sydd ychydig yn siomedig gan fod ymdrechion yn cael eu gwneud i leihau'r nifer hwn (yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol)! Mae gwaith yn parhau yn y gwasanaeth a chyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i fonitro'r gostyngiad hwn, tra'n adolygu'r materion a arweiniodd at y cyfraddau uwch yn 2023. Mae ein cyfradd aildroseddu wedi cynyddu i 36.5%, sy'n uwch nag yr hoffem, ond mae hyn yn parhau i fod yn is na Chymru/ perfformiad Lloegr.

Nid oes unrhyw blant o Wynedd nac Ynys Môn yn y ddalfa (naill ai remand neu ddedfryd) ni fu unrhyw ddedfrydau o garchar ers Mehefin 2023 a dim ond 1 yn y 4 blynedd diwethaf. Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn niferoedd llwyth achosion, mae'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn rheoli achosion 149, cynnydd pellach o 17.3% ers Medi 2024. Bu gostyngiad bychan yn nifer y merched a gyfeiriwyd at y gwasanaeth, byddwn yn parhau i fonitro hyn. Mae mwyafrif yr achosion (79%) yn cael eu rheoli ar Warediad y Tu Allan i'r Llys. Mae Bwrdd Rheoli'r GCI yn parhau i fonitro Amrywiaeth a Nodweddion Gwarchodedig, mae plant nad ydynt mewn addysg amser llawn ac sy'n cael anawsterau gydag Iechyd Emosiynol a Meddyliol, yn peri pryder eto.

Mae'r Bwrdd Rheoli a'r Gwasanaeth yn parhau i ddatblygu ein hymateb i'r Arolygiad gan HMIP, rydym wedi adolygu Cynllun Gweithredu'r Arolygiad ac wedi newid rhai o'n dyddiadau targed uchelgeisiol ar gyfer hyfforddi staff.

**Arweinydd: Stephen Wood**

# Gofalwyr di-dâl

**PWRPAS** : ***Adnabod, cydnabod a chefnogi'r gwaith amhrisiadwy mae gofalwyr di-dâl yn ei wneud ar draws Gwynedd***

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gofalwyr ifanc sydd â mynediad i Aidi **(App/cerdyn)** **108** | Gofalwyr ifanc a gefnogir gan Gweithredu Dros Blant **163** | Asesiadau gofalwyr ifanc wedi cwblhau - Gweithredu Dros Blant yn y cyfnod 67 | Plant yn derbyn Gwasanaeth Cefnogol fel ysbaid i rhieni ofalwyr- Derwen 204 |

**Trosolwg o berfformiad a negeseuon**:

Mae'r Cyngor yn comisiynu'r mudiad Gweithredu Dros Blant i ddarparu asesiadau anghenion gofalwyr ifanc a chynnig cymorth ymarferol, gwybodaeth, cymorth, cyngor ac arweiniad i ofalwyr ifanc a'u rhieni/gwarcheidwaid yn unigol neu mewn grŵp. Roedd 31 person ifanc ar y rhestr aros ar ddiwedd Ebrill. Cafodd 124 adolygiad eu cynnal yn ystod y cyfnod:

- **72% yn dweud bod yna gwellhad yn eu iechyd meddwl/lles emosiynol**
- **71% yn dweud eu bod yn cyrraedd eu potensial yn yr ysgol.**
- **67% yn dweud bod ganddynt rhwydwaith cefnogol**
- **62% yn dweud eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau**
- **55% yn dweud bod yna gwellhad yn eu sgiliau cymdeithasol a ffrindiau**
- **67% yn dweud bod eu lleisiau yn cael eu clywed a'u cyfrannu at wneud penderfyniadau**

Gwelwyd cynnydd mewn gofal am riaint gyda phroblemau iechyd meddwl yn ystod y flwyddyn- 30% o'r holl achosion. Dyliad nodi mai cymorth am 12 mis yn unig y gall y mudiad ei ddarparu ar hyn o bryd i blant o 8 oed i fyny.

Bu addasiadau mewnol o fewn Tîm Gofalwyr y Cyngor eleni a bellach mae Swyddog Llesiant Gofalwyr yn gweithio ar raglen waith sy'n cwmpasu pob ystod oedran – plant ac oedolion. Bu'r swyddog yma'n gweithio ar ddarparu ac addasu adnoddau gwybodaeth, cadarnhau ffyrdd o ymgysylltu a chlywed lleisiau gofalwyr ac ystyried ffyrdd pellach o gydweithio gyda mudiadau a grwpiau lleol ar lawr gwlad yn ogystal â thimau mewnol.

**Adborth am y gwasanaeth**

*"The emotional support from young carers has helped me be less overwhelmed, Sarah ( young carers worker) is the greatest" – Gofalwr 14 oed*

*"Thank you so much for today, that's the most fun I've had in a long time". Gofalwr 11 oed*

*"It has given me a better understanding of what's going on and stuff and my mental health. The support has been really good, thank you."* Gofalwr 14 oed

*"Y ferch wedi defnyddio y triongl newid meddwl hefo gwaith ysgol ag mae hyn i weld wedi gweithio, ma hi hefyd wedi rhannu y triongl hefo'i ffrindia. Ma hi'n teimlo yn well ynddi hyn rwan, wedi neud mwy o blania hefo ffrindiau." Rhiant*


*"I just want to say from the bottom of my heart thank you all so much for all that you have done for my daughter, being able to just be a teenager for a few hours has massively helped her thank you for all the activity and days out and all the help she has had from all." Rhiant*


Dyfyniadau drwy law y mudiad Gweithredu Dros Blant

# Datblygu’r Gweithle

**PWRPAS** : Datblygu’r gweithle

**Trosolwg o berfformiad a negeseuon**:








**Recriwtio**

• Recriwtio yn parhau yn flaenoriaeth, cyfeiriwyd 11 enw ymlaen i’r gwasanaethau trwy ymgyrch SOS yn ystod y cyfnod yma. o Cyfnod prysur o rhan yr Academi Gofal efo 38 cais a nifer uchel iawn o ymgeiswyr cryf . Rydym wedi penodi 6 a nifer wedi pasio ymlaen i’r gwasanaethau . 6 Hyfforddai wedi cychwyn ac yn cael profiad yn y gwasanaethau cyn cychwyn ar ei cyfnod o waith .

**Adborth Cyrsiau**

•Rydym yn gwerthuso cyrsiau yn parhaus er mwyn sicrhau bod y cyrsiau yn parhau i cwrdd a’r angen .






**Cydlynydd: Gillian Paul**

# Eithriadau

Pwrpas : Adrodd ar unrhyw ddata neu eithriad mewn perfformiad sy'n peri pryder neu falchder.

Mae'r Llywodraeth wedi rhoi mis ychwanegol i ni gasglu gwybodaeth blynyddol yn sgil newidiadau systemau a chasglu gwybodaeth i'r Cyfrifiad. Nid oes gennym felly ddata cyflawn i adrodd ar eithriadau, a byddai ceisio gwneud hynny yn eich camarwain. Bydd y wybodaeth i ddilyn.

# Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Gweithrediadau Blwyddyn 2

## Gwynedd Ofalgar: Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau

| **Adran** | **Prosiect** | **Beth ydym am ei gyflawni yn ystod yr AIL flwyddyn 2024-25 (cerrig milltir):** | **Diweddariad CRYNO ar y cynnydd gyda'r cerrig milltir hyd yma** (nodwch y dyddiad) | **Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau / yn debygol o'i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol** (Ydi / Nac Ydi) |
|---|---|---|---|---|
| **Oedolion** | Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol | 1. Penderfynu ar faint a safle ar gyfer darpariaeth Tai Gofal Ychwanegol yng Nghaernarfon<br>2. Sgopio'r angen am ddarpariaeth ychwanegol o Dai Gofal ar safle Penyberth, Pwllheli<br>3. Dod i benderfyniad ar ffordd ymlaen ar gyfer darpariaeth Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Dolgellau<br>4. Byddwn wedi gorffen uwchraddio Hafod Mawddach a Cefn Rodyn<br>5. Byddwn wedi agor unedau dementia Bryn Blodau a Plas Hedd yn llawn<br>6. Byddwn wedi cwblhau trefniadau i ddarparu 2 dŷ a chefnogaeth yn y gymuned | 1<br>2<br>3<br>4<br>5<br>6 | 1<br>2<br>3<br>4<br>5<br>6 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 7. Bydd gennym sicrwydd ar drefniadau rhentu llety gofal i'r dyfodol a chadarnhad a fydd y cyngor yn medru gweithredu fel landlord | 7 | 7 |
| **Oedolion** | Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal | 1. Bydd system Dewis Cymru wedi'i diweddaru ar gyfer bob ardal yng Ngwynedd erbyn haf 2025 a golygwyr wedi'u hadnabod ar gyfer bob maes gwaith i gynorthwyo gyda chynnal y system.<br>2. Bydd chwiliwr Dewis a system therapi galwedigaethol AskSara wedi'u hintegreiddio i dudalennau gwefan y gwasanaethau cymdeithasol<br>3. Bydd dewislen o ddyfeisiadau teleofal ar gael a bydd y rhain yn cael eu hyrwyddo'n eang ar y wefan, yn y cyfryngau a thrwy'r timau gwaith cymdeithasol.<br>4. Bydd polisi/cytundeb taliadau uniongyrchol wedi ei ddiweddaru, a byddwn yn rhoi'r dewis o waled rithiol ar gyfer unrhyw achosion taliadau uniongyrchol o'r newydd. | 1<br>2<br>3<br>4 | 1<br>2<br>3<br>4 |
| **Oedolion** | Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned | 1. Byddwn wedi sefydlu trefniadau cyfathrebu a chyfarfod rheolaidd er mwyn hyrwyddo cydweithio a galluogi'r timau oedolion i deimlo fwy fel un<br>2. Byddwn wedi cryfhau ein systemau cydweithio i'n galluogi i ryddhau pobl o'r ysbyty yn fwy effeithlon<br>3. Byddwn wedi alinio ardaloedd y Timau Adnoddau Cymunedol gydag is-ardaloedd gofal cartref ac wedi dod i gytundeb gyda'r Bwrdd | 1<br>2<br>3 | 1<br>2<br>3 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Iechyd ar y ffordd ymlaen o safbwynt ardaloedd y timau nyrsus cymunedol<br>4. Byddwn wedi datblygu trefniadau cydweithio newydd i'r timau iechyd meddwl ac wedi cynnal adolygiad o'r trefniadau rhai misoedd wedi sefydlu hefyd i sicrhau eu bod yn gadarn | 4 | 4 |
| **Oedolion** | **Datblygu cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth** | 1. Bydd y gwaith datblygu ar adeilad newydd Dolfeurig yn mynd rhagddo erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, gyda'r bwriad o gwblhau'r gwaith erbyn Haf 2025<br>2. Byddwn wedi penodi Cydlynydd Cyfleon Gwaith a Swyddogion Cefnogi Cyflogaeth ychwanegol, a byddwn wedi gwneud gwaith i adnabod y math a'r nifer o gyfleon sydd eu hangen er mwyn medru cynllunio sut i gyfarch hyn<br>3. Bydd o leiaf 8 unigolyn sydd ddim mewn cyflogaeth ar hyn o bryd mewn cyflogaeth erbyn diwedd y flwyddyn | 1<br>2<br>3 | 1<br>2<br>3 |
| **Oedolion** | **Llechen Lân** | 1. Byddwn wedi cwblhau'r dadansoddiad cychwynnol a'i gyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth, a byddwn wedi gosod amserlen ar gyfer y gwaith sydd wedi'i amlygu | 1 | 1 |
| **Trawsadrannol** | **Cefnogi Llesiant Pobl** | 1. Sefydlu 2 Hwb Cefnogi Pobl mewn 2 ardal newydd.<br>2. Trefnu hyfforddiant i weithwyr a gwirfoddolwyr yr Hybiau ar gefnogi unigolion.<br>3. Penodi swyddi Hyrwyddwyr Lles a chynnal digwyddiadau costau byw, sesiynau galw heibio amrywiol.<br>4. Cydweithio gyda phartner gwirfoddol i ddarparu cefnogaeth rhifedd a chyllidebu i drigolion. | 1<br>2<br>3<br>4<br>5 | 1<br>2<br>3<br>4<br>5 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 5. Cwblhau'r Prosiect Cynhwysiad Digidol i roi help ymarferol i ddysgu pobl i fynd ar-lein a dosbarthu cyfarpar TG.<br>6. Cynnal Cynllun Bwyd i gynnwys sefydlu cronfa grant ar gyfer cynlluniau bwyd a bwydo gan grwpiau cymunedol; cyrsiau coginio yn y gymuned ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd, a chreu gerddi a rhandiroedd cymunedol. | 6 | 6 |
| **Plant a Theuluoedd** | **Cynllun Awtistiaeth** | 1. Parhau gyda'r rhaglen hyfforddiant i staff rheng flaen. Sicrhau bod staff yn gwneud hyfforddiant Lefel 1 a 2 Awtistiaeth a gwneud yn siŵr bod y ffigyrau yn cynyddu. Gwneud yn siŵr bod swyddi arbenigol yn gwneud hyfforddiant Lefel 3 ac mae Tîm Awtistiaeth hefyd yn rhoi hyfforddiant pwrpasol ar gyfer Lefel 4<br><br>2. Datblygiad grwpiau - parhau i ddatblygu grwpiau ac ymgynghori gyda rhanddeiliaid o ba grwpiau sydd angen eu cynnal a niferoedd dros y flwyddyn. Gwasgaru'r rhain dros y Sir.<br><br>3. Parhau cydweithio gydag Adran Addysg a Thîm Niwroddatblygiadol (NDT). | 1 Niferoedd staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant lefel 1 a 2 wedi cynyddu yn sylweddol dros y flwyddyn. Gweithwyr o fewn gwasanaethau cymdeithasol sydd a dyletswyddau asesu yn cwblhau hyfforddiant lefel 3 a 4.<br><br>2 Grwpiau megis Paned a sgwrs i rieni/ gofalwyr, clwb Niwro i pobl ifanc. Grŵp EMA (i bobl ifanc cael dysgu a deall am y gwahaniaeth yn y ffordd maen yn rhyngweithio ar byd.) Grŵp cefnogi rhieni/ gofalwyr CYGNET. Unigolion awtistig (plant, pobl ifanc, oedolion, rhieni a gofalwyr) yn rhan or broses ymgysylltu pan yn datblygu y gwasanaeth.<br>Grŵp rhanddeiliaid wedi sefydlu ac yn cyfarfod bob chwarter. | 1 Mae'r gwaith yn parhau er mwyn cyflawni'r nod o fod yn awdurdod lleol sydd yn ymwybodol ac yn deall awtistiaeth.<br><br>2 Grwpiau yn llwyddiannus ac yn parhau, edrych ar ehangu a hyfforddi gweithwyr eraill i hwyluso a rhedeg grwpiau a rhaglenni cefnogi ac addysgol.<br>Parhau i ddatblygu a hyrwyddo cyfleodd i unigolion a profiad byw (awtistiaeth) Bod yn ran o ddatblygiadau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 4. Ymgynghori gyda staff mewnol ac allanol. Gwaith 1 i 1 angen digwydd gyda chanlyniad seren.<br><br>5. Mewn gwaith achos unigol gallu dangos canlyniad positif a chynnydd gyda'r achosion a mesur yr adborth.<br><br>6. Ymgysylltu gyda'r trydydd sector er mwyn gweld oes modd darparu gwasanaeth | 3 Cyfarfodydd a rhyngweithio cyson ar adran addysg a Tim ND.<br><br>4 Llwybr clir wedi sefydlu ar gyfer cefnogaeth, arweiniad a ymgynghori a gweithwyr proffesiynol. Awtistiaeth Gwynedd yn wasanaeth eilaidd o fewn gwasanaethau cymdeithasol, felly cefnogaeth yn cael ei ddarparu ar sail 1-1 yn dilyn cais gan weithiwr i gwblhau darn o waith arbennig.<br><br>5 Gwaith sydd yn cael ei gwblhau ar sail unigol yn cael ei mesur yn erbyn marcwyr lles drwy cwblhau canlyniad seren (outcome star). Adnodd sydd wedi'u cynllunio i gefnogi newid cadarnhaol a cynnydd mewn lles, gyda graddfeydd wedi'u cyflwyno mewn siâp seren ac wedi'u mesur ar 'Daith Newid' wedi'i ddiffinio'n glir.<br><br>6 Gwaith wedi cychwyn o ran ymgynghori ar trydydd sector. Cynrychiolaeth o'r trydydd sector yn mynychu y grŵp rhanddeiliaid, mae'r gwaith yma yn parhau ac yn datblygu | 3 Parhau<br><br>4 yndi<br><br>5 Yndi<br><br>6 Parhau |
| **Plant a Theuluoedd** | **Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan** | 1. Penodi Rheolwr i'r tŷ cyntaf ym Morfa Bychan. | 1. Rheolwraig wedi ei phenodi, ynghyd a weddill y staff gan gynnwys staff banc. | 1. Ydi. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 2. Cofrestriad gyda CIW am y tŷ cyntaf - gweithio tuag at Fis Mehefin 2024 i fyny at gychwyn Mis Medi 2024. | 2. Bydd hyn yn cael ei gwblhau o fewn yr wythnosau nesaf. | 2. Nac ydi, hyn yn y flwyddyn ariannol 25/26. |
| | | 3. Agor drysau'r tŷ cyntaf ym Morfa Bychan Mis Medi 2024 a chael y plentyn cyntaf wedi ei leoli yno. | 3. Mae’r tŷ ym Morfa Bychan wedi agor, ac ers Mawrth, 2024 mae dau blentyn yn byw yno. | 3. Ydi. |
| | | 4. Chwarter 1 24/25 - archwiliad o’r farchnad dai mewn 3 ardal benodol sef Arfon (Bangor), Pwllheli a Meirionnydd | 4. Archwiliad wedi eu gwneud. | 4. Ydi. |
| | | 5. Diwedd chwarter 2 24/25 – pryniant o’r ail dŷ | 5. Prynwyd tŷ yn Neiniolen. | 5. Ydi. |
| | | 6. Diwedd chwarter 4 24/25 - Cofrestru'r ail dŷ gyda CIW | 6. Cofrestriad heb ei wneud, yn bresennol mae gwaith sgôp yn cael ei wneud yn rhestru’r nodweddion sydd angen ei wneud er mwyn cael yr eiddo i safonau CIW. | 6. Nad ydi, hyn yn y flwyddyn ariannol 25/26. |
| | | 7. Adnabod trydydd tŷ i brynu neu roi cais cynllunio i mewn ar ddarn o dir yn Ardal Arfon sydd eisoes yn berchen ar y Cyngor. | 7. Trydydd tŷ wedi ei adnabod a’i brynu, hynny’n Edern. | 7. Ydi. |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD** | 12/06/2025 |
| **TEITL** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Rhoi sicrwydd fod gan yr Aelod Cabinet afael ar faterion perfformiad yr Adran. |
| **AWDUR** | Aled Davies |
| **AELOD CABINET** | Cyng. Dilwyn Morgan |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor gael eu bodloni fod gennyf i, yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant afael ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

**2. Cefndir / Cyd-destun**

**2.1 Cefndir / Cyflwyniad**

Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor; gwaith dydd i ddydd yr Adran; ynghyd a'ch diweddaru am unrhyw archwiliadau allanol sydd wedi cymryd lle yn ystod y cyfnod.

Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd a wnaed hyd at ddiwedd 31/3/25. Mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod herio perfformiad. Mi wyddom i gyd am yr heriau sydd yn wynebu yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, a hyn wedi eu amlygu fwy nag erioed fel rhan o'r adroddiad Llechen Lân. Yn nghyd destun yr heriau yma, rwy'n hapus fod cynnydd sylweddol wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn, ac rwyf yn fodlon gyda pherfformiad yr Adran.

**2.2 Rhesymeg a chyfiawnhad**

**<u>Perfformiad Addewidion Cynllun y Cyngor</u>**

2.2.1. Isod, mae crynodeb o'r prif brosiectau sydd wedi gweld cynnydd neu sy'n peri pryder ond dylid nodi mai rhai esiamplau sydd yma, a nad wyf yn cyfeirio at bob un llif gwaith gan fod prosiectau'r adran yn eang iawn. Gweler y manylder llawn fesul prosiect yn atodiad 1.

***Prosiect 1 - Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol***

2.2.2 Mae'r gwaith o uwchraddio cartrefi preswyl Hafod Mawddach a Cefn Rodyn wedi eu cwblhau, a'r uned ddementia yn Bryn Blodau wedi ei agor yn rhannol. Mae llithriad wedi bod yn yr amserlen i agor gweddill gwelyau Bryn Blodau a'r uned dementia yn Plas Hedd, ond disgwylir i'r gwelyau yma fod yn barod yn ystod misoedd cyntaf 2025/26.

2.2.3. Mae trafodaethau yn datblygu o ran darpariaeth Tai Gofal Ychwanegol yng Nghaernarfon, gyda'r safle wedi ei adnabod. Mae trafodaethau yn parhau o ran sicrhau tai gyda gofal addas ar safle Penyberth. Mae llithriad wedi bod yn yr amserlen o ran adnabod safleoedd ar gyfer Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Dolgellau, ond mae adnodd penodol wedi ei adnabod i weithio ar y cynllun yma, ac mae'r gwaith wedi cychwyn. Byddaf yn gofyn am ddiweddariad yn y sesiwn herio a chefnogi perfformiad nesaf.

***Prosiect 2 - Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal***

2.2.4 Mae unrhyw un yn gallu hunan gyfeirio am offer teleofal dros wefan y Cyngor bellach, ac mae mwyafrif o ddyfeisiadau teleofal y Sir wedi eu trosglwyddo i ddyfeisiadau newydd digidol, heb gost pellach i drigolion Gwynedd. Mae'r gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth taliadau uniongyrchol yn parhau. Bellach mae unrhyw becyn newydd yn cael cynnig cyfrif digidol, gyfwerth a 'waled rhithiol' er mwyn gallu rheoli eu pecynnau taliadau uniongyrchol yn haws. Mae sicrhau fod y gweithlu yn hyderus yn hyrwyddo taliadau uniongyrchol yn flaenoriaeth i mi, ac rwyf mewn trafodaethau cyson efo'r gwasanaeth i sicrhau fod hyn yn digwydd.

***Prosiect 3 - Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned***

2.2.5 Mae'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl newydd wedi'i sefydlu a'r gweithlu wedi setlo yn swyddfeydd y Cyngor yng Nghaernarfon ac ym Mhenrhyn. Mae'r gwasanaeth wedi sefydlogi a byddwn yn parhau i fonitro cynnydd dros y misoedd nesaf. Mae adolygu achosion A.117 ar y cyd a'r Bwrdd Iechyd yn her, yn bennaf oherwydd capasiti y Bwrdd Iechyd.

2.2.6 Mae cydweithio effeithiol yn digwydd rhwng y tîm Rhyddhau Ysbyty Gwynedd a'r Timau Adnoddau Cymunedol. Yn ddiweddar mae 3 ymarferydd gwaith cymdeithasol wedi lleoli eu hunain am un diwrnod yr wythnos yn Ysbyty Gwynedd o ardaloedd Bangor, Llŷn ac Eifionydd – oherwydd eu bod yn perthyn i'r TAC ardal mae nhw'n dod a'u gwybodaeth o adnoddau a rhwydweithiau lleol yn syth i'r asesiad ysbyty, ble gynt roedd yr ysbyty yn penderfynu ar y lefel gofal heb yr ymwybyddiaeth o wasanaethau lleol a cefnogaeth posib o'r gymuned ble mae'r claf yn byw ynddi. Gyda cyswllt y 3 i'r TAC mae modd dilyn achosion drwodd o'r ysbyty i'r gymuned. Y gobaith yw bydd unigolion yn gadael yr ysbyty yn brydlon, llai o siawns iddynt ddirywio ac felly yr anghenion gofal yn llai neu o leiaf yn fwy cymesur i'r anghenion, hyn yn osgoi gorddarpariaeth.

***Prosiect 4 - Datblygu cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth***

2.2.7 Mae Cydlynydd Llwybr Gyrfa Anabledd Dysgu yn gweithio ar draws Gwynedd a Môn gan ddefnyddio arian rhanbarthol, ac rydym hefyd wedi rhyddhau amser 3 Swyddog Cefnogol o fewn y gwasanaeth i fod yn hyrwyddo cyfleon gwaith a chefnogi unigolion i waith cyflogedig. Fel y bydd y mesurau'n ddangos yn hwyrach yn yr adroddiad, mae hyn wedi bod yn llwyddiant ysgubol ers cychwyn y prosiect yn 2023. Mae angen parhau i sicrhau fod yr unigolion sydd ar y rhaglen yn cael eu cefnogi i ddatblygu i waith cyflogedig gyda chyflog teg maes o law os mai dyma eu dymuniad.


***Prosiect 5 - Llechen Lân***

2.2.8 Mae'r ymchwil ac adroddiad llechen lân wedi ei gwblhau, gyda siroedd eraill Cymru wedi dangos gryn ddiddordeb yn y canfyddiadau. Mae argymhellion yr adroddiad Llechen Lân wedi cychwyn cael eu gweithredu arnyn nhw. Bydd yr argymhellion yn rhan o gynllun yr Adran Oedolion fydd yn cael ei datblygu dros y misoedd nesaf wrth i'r Pennaeth newydd ddatblygu ei weledigaeth.

**<u>Gwaith dydd i ddydd yr Adran - perfformiad a mesurau</u>**


2.2.9 Mae'r adran yn parhau gyda'r gwaith i gryfhau eu mesurau perfformiad, gan ddatblygu mesurau sydd wir yn cyfleu perfformiad yr Adran, ac mae'r Adran yn gwneud cynnydd ar ddatblygu'r adroddiad o gyfarfod i gyfarfod. Mae nifer o fesurau gan yr adran, ond eto byddaf yn cyfeirio isod at y rhai sy'n peri pryder neu'n destun llongyfarch yn benodol.

2.2.10




O fewn y **Gwasanaeth Pobl Hŷn, Anableddau Corfforol a Synhwyraidd** mae'r rhestr aros ar gyfer derbyn asesiad wedi lleihau. Yn benodol, mae'r rhestr aros am asesiad therapi galwedigaethol wedi lleihau'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf, o 129 ar ei uchaf yn fis Mehefin 2024, lawr i 36 erbyn mis Mawrth 2025. Un ffactor o'r gostyngiad yma yw'r arian ddefnyddiwyd o'r 'Her 50 diwrnod' i ariannu gwaith Therapyddion Galwedigaethol preifat a wnaeth roi sylw i'r rhestrau aros yn ystod mis Chwefror a Mawrth y flwyddyn yma, gan flaenoriaethu ardaloedd Bangor a De Meirionnydd yn bennaf. Ffactorau arall sydd wedi helpu oedd uwch-sgilio Ymarferwyr Gwaith Cymdeithasol i asesu am offer, a hefyd cael un swyddog IAA (gwybodaeth, cyngor a chymorth) mewn rhai ardaloedd wedi golygu osgoi cyfeiriadau diangen a wedi lleihau y nifer sydd yn aros am asesiad. Mae hyn yn y dyddiau cynnar, ond gobeithiwn ei weld yn parhau yn y tymor hir. Mae penodi i rolau therapyddion wedi bod yn heriol iawn, yn enwedig mewn rhai ardaloedd o'r Sir. Mae ardal Bangor yng nghanol recriwtio therapydd arall, ond mae ardal De Meirionnydd wedi methu gallu recriwtio ers tro bellach. Mae'r Arweinydd Therapi yn rhoi sylw i'r rhestr aros fel un o'i phrif flaenoriaethau.

2.2.11




Yn fy adroddiad diwethaf, roeddwn yn adrodd pryderon fod cynnydd wedi bod unwaith eto yn y canran o oriau **gofal cartref** oedd ddim yn cael eu diwallu. Mae'r ganran wedi disgyn yn sylweddol, sydd yn galonogol dros ben. Erbyn ddiwedd Ebrill roedd 64 unigolyn yn aros am ofal cartref o'r newydd (o'i gymharu â 110 Medi 2024). Mae rhestrau aros yn parhau mewn rhai is-ardaloedd penodol oherwydd diffyg capasiti darparwyr gofal i gwrdd â'r galw, yn bennaf oherwydd problemau recriwtio. Fe alluogodd arian grant Llywodraeth Cymru 'Her 50 diwrnod' ddatrysiad dros dro i'r rhestrau aros yn ardal Tywyn drwy gomisiynu gofal ychwanegol gan gwmni preifat. Mae datrysiad hir dymor i'r sefyllfa yn parhau i fod yn heriol. Mae ardaloedd eraill sy'n peri pryder o ran rhestrau aros, gan gynnwys Dyffryn Nantlle, Ffestiniog a Pwllheli.


2.2.12




Fel nodais ynghynt, mae Swyddogion Cyfleon Gwaith newydd mewn lle yn y gwasanaeth **Anabledd Dysgu**, ac mae’r nifer o unigolion sydd ar y llwybr cyfleon gwaith wedi cynyddu’n sylweddol o 51 ym Medi 2023 i 114 erbyn Ebrill 2025. Mae’r nifer sydd mewn gwaith cyflogedig wedi cynyddu o 23 i 46 yn ystod yr un cyfnod hefyd. Rwy’n hynod o falch o nodi’r niferoedd yma ac yn edrych ymlaen i weld datblygiad pellach y gwasanaeth dros y cyfnod nesaf wrth i ni fuddsoddi yn y gefnogaeth.

2.2.13 Dros y misoedd diwethaf mae 294 o unigolion ar draws y sir wedi mynychu gwasanaethau **Dementia Actif**. Mae’r gwasanaeth yma yn hanfodol i gefnogi unigolion sy’n byw â dementia a’u teuluoedd. Er hynny, mae nifer o’r unigolion sydd yn mynychu’r sesiynau yn unigolion nad ydynt yn byw gyda dementia, sydd yn profi gwerth cymdeithasol y gwaith . Rwy’n hynod o falch o weld y niferoedd yma ac mae’n pwysleisio pa mor hanfodol yw gwasanaethau ataliol sydd yn cynorthwyo pobl i barhau i fyw’n annibynnol ac i gyfrannu o fewn eu cymunedau, gan hefyd roi cefnogaeth gwbl hanfodol i ofalwyr di-dâl.

2.2.14





Mae’r nifer o ymholiadau amddiffyn oedolion sydd wedi eu cwblhau o fewn yr amserlen statudol yn parhau yn gyson gan lwyddo i ymateb yn amserol i gyfeiriadau yn y mwyafrif o achosion ynghanol pwysau gwaith arall. Rydym wedi gweld dirywiad bychan yn y nifer o

ymholiadau sydd wedi eu cwblhau o fewn 7 diwrnod dros yr wythnosau diwethaf. Mae hyn o ganlyniad i absenoldebau staff o fewn y tîm diogelu yn bennaf, sydd yn golygu bod yr achosion yn syrthio ar yr Arweinyddion Ardal ar ben eu llwyth gwaith arferol nhw. Bydd Gweithiwr Cymdeithasol profiadol yn ymuno a'r tîm diogelu yng nghanol mis Ebrill, ar sail dros dro i gynorthwyo gyda'r ymholiadau. Bydd cynyddu'r capasiti y tîm yn galluogi i ni gwblhau'r ymholiadau o fewn yr amserlen statudol ym mhob achos.

2.2.15 Mae'r nifer sy'n aros am asesiad **Diogelu rhag Amddiffyn Rhyddid (DoLS)** yn parhau yn bryderus gyda 356 o unigolion ar y rhestr aros am asesiad ddiwedd Mawrth 2025. Mae'r adran wedi derbyn grant pellach gan y Llywodraeth i gefnogi'r gwaith i leihau'r rhestr aros. Hefyd, yn dilyn bid llwyddiannus, mae hysbyseb wedi mynd allan i gyflogi 2 Asesydd Budd Gorau, fydd yn galluogi'r Adran i ddod i'r afael a'r mater yn ystod y flwyddyn i ddod.

2.2.16 Mae perfformiad y gwasanaeth **Sicrwydd Ansawdd** i'w ganmol wrth iddynt lwyddo i fod wedi cynnal gweithgaredd monitro gyda 98% o ddarparwyr gofal yn y 12 mis diwethaf. Mae hwn yn ffigwr llawer uwch na'r hyn rydan ni wedi'i weld ers tro, ac mae trefniadau gwaith newydd y tîm wedi cyfrannu. Bellach, maen nhw'n cynnal ymweliadau byrrach a chyson yn canolbwyntio ar feysydd penodol gyda darparwyr yn hytrach nag ymweliadau hirfaith gyda bob darparwr i drafod pob agwedd o'u gwasanaeth. Mae hyn yn sicrhau gwell perthynas cydweithio rhwng y gwasanaeth a'r darparwyr gofal ac yn golygu eu bod yn llwyddo i gyrraedd mwy o ddarparwyr. Mi fydd hefyd gwaith yn dechrau ar fonitro lleoliadau Tai a Chefnogaeth ym mis Ebrill. Bydd hyn yn cynnwys prif swyddfeydd y darparwyr gofal, a phob un o'r tai y mae unigolion yn byw ynddynt.


2.2.17




Rwyf yn falch o adrodd bod cynnydd wedi bod yn y gyfradd llenwi gwelyau mewn **cartrefi preswyl** mewnol ac mae wedi cynyddu o 80% yn Mehefin 2024 i 86% yn Mawrth 2025. Y prif resymau dros y cynnydd diweddar yw'r cyfradd llenwi yn Hafod Mawddach, Y Bermo (86%) a Plas Pengwaith, Llanberis (87%). Yn ychwanegol, noda'r adran ei fod yn parhau'n heriol i wneud defnydd llawn o'r gwlâu mewn rhai cartrefi oherwydd lefelau staffio a lefel


anghenion preswylwyr. Mi fydd y gwasanaeth yn datblygu mesur newydd o ran hyn er mwyn rhoi gwell cyd-destun wrth fonitro’r gyfradd llenwi i’r dyfodol.

2.2.18




Rwy’n falch o adrodd ein bod yn gweld cynnydd yn y canran o oedolion sy’n derbyn eu gwasanaethau drwy **daliadau uniongyrchol** (14% ddiwedd Mawrth 2024 wedi cynyddu i 17% erbyn mis Mawrth 2025). Er fod hyn yn ymddangos yn gynnydd bychan, mae’n ganran o nifer uchel o bobl. Fel nodwyd uchod, mae’r gwaith o ddatblygu’r gwasanaeth taliadau uniongyrchol yn parhau. Bellach mae unrhyw becyn newydd yn cael cynnig cyfrif digidol, gyfwerth a ‘waled rhithiol’ er mwyn gallu rheoli eu pecynnau taliadau uniongyrchol yn haws. Mae sicrhau fod y gweithlu yn hyderus yn hyrwyddo taliadau uniongyrchol yn flaenoriaeth i mi, ac rwyf mewn trafodaethau cyson efo’r gwasanaeth i sicrhau fod hyn yn digwydd er mwyn lleihau’r pwysau ar ein darparwyr gofal a sicrhau mwy o reolaeth i unigolion ar eu trefniadau gofal.

2.2.19




Yn yr un modd, rydym wedi bod yn rhoi sylw i'r gwasanaeth **teleofal** er mwyn tacluso’r trefniadau a sicrhau cysondeb o safbwynt cyfraniad ariannol unigolion tuag at y gwasanaeth. Mae’r niferoedd sy’n talu am y gwasanaeth wedi cynyddu’n sylweddol ers yr

adroddiad diwethaf, gyda 1438 o unigolion yn talu am y gwasanaeth erbyn Mawrth 2025. Mae dros dwy rhan o dair o ddyfeisiadau teleofal Gwynedd wedi eu trosglwyddo i ddyfeisiadau newydd digidol bellach, a hynny heb gost ychwanegol i'r unigolion. Mi fydd prentis yn cychwyn yn ystod mis Gorffennaf i helpu gyda cwblhau'r trosglwyddiad cyn gynted â phosib. Rydym yn parhau i fynd ati i hyrwyddo'r defnydd o'r gwasanaeth a thechnoleg a alluoga gofal yn fwy cyffredinol. Byddwn hefyd yn cyd weithio gyda'r Adran Tai ac Eiddo gyda'r digwyddiadau 'Tai ar Daith' i sicrhau fod y wybodaeth am beth sydd allan yna i helpu Oedolion Gwynedd fyw yn annibynnol yn cael ei hyrwyddo.

**2.3 Archwiliadau Allanol**

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Adran Oedolion wedi bod yn destun sawl archwiliad allanol – yn bennaf gan Arolygaeth Gofal Cymru (ar wasanaethau'r Adran yn gyffredinol), ac Archwilio Cymru (ar wasanaethau Gofal Cartref yn benodol). Adroddwyd ar ganfyddiadau y ddwy archwiliad yma i'r pwyllgor craffu ar y 20/2/25, ac mae'r argymhellion wrthi yn cael eu gweithredu. Byddwn yn diweddaru aelodau ar y cynnydd yn unol a'r angen.

**3. Ymgynghori**

Mae'r adroddiad wedi ei greu yn seiliedig ar wybodaeth a chynnwys cyfarfod diweddaraf i herio a chefnogi perfformiad yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, gyda'r Cyfarwyddwr, y Pennaeth Adran, Penaethiaid Cynorthwyol a finnau yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

**Atodiadau**

**Atodiad 1:** Adroddiadau cynnydd cerrig milltir prosiectau Cynllun y Cyngor

**Atodiad 2:** Mesuryddion Perfformiad yr Adran

# Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Gweithrediadau Blwyddyn 2

## Gwynedd Ofalgar: Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau

| Adran | Prosiect | Beth ydym am ei gyflawni yn ystod yr AIL flwyddyn 2024-25 (cerrig milltir): | Diweddariad CRYNO ar y cynnydd gyda'r cerrig milltir hyd yma (nodwch y dyddiad) | Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau / yn debygol o'i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol (Ydi / Nac Ydi) | Arweinydd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Oedolion** | **Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol** | 1. Penderfynu ar faint a safle ar gyfer darpariaeth Tai Gofal Ychwanegol yng Nghaernarfon<br><br>2. Sgopio'r angen am ddarpariaeth ychwanegol o Dai Gofal ar safle Penyberth, Pwllheli | 1. Cyfarfod wedi ei gynnal gyda'r Adran Dai a'r Prif Weithredwr i drafod y safle ehangach. Briff yn mynd i gael ei yrru i'r Adran Dai erbyn ddiwedd Mawrth.<br><br>2. Mae'r gwaith ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar y cartref nyrsio. Bydd y gwaith sgopio yma'n cychwyn yn fuan, ond ni fydd wedi gorffen erbyn ddiwedd Mawrth. | 1. Ydi<br><br>2 . Na | Alun Gwilym Williams |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 3. Dod i benderfyniad ar ffordd ymlaen ar gyfer darpariaeth Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Dolgellau | 3. Angen adnodd penodol i weithio ar y cynllun yma. Mae hyn wedi ei roi mewn lle ond carreg filltir wedi ei oedi tan Medi 2025. | 3. Na | |
| | | 4. Byddwn wedi gorffen uwchraddio Hafod Mawddach a Cefn Rodyn | 4. Wedi cwblhau | 4. Ydi | Rhion Glyn |
| | | 5. Byddwn wedi agor unedau dementia Bryn Blodau a Plas Hedd yn llawn | 5. BB – Methiant wedi bod i agor yr uned yn llawn hyd yma gyda dim ond hanner y gwelyau mewn defnydd. Anelir i agor gweddill y gwelyau cyn diwedd y flwyddyn ariannol. PH – Llithriad sylweddol wedi bod yn yr amserlen i gwblhau'r gwaith i addasu'r uned ond bwriad i agor yr uned yn ystod mis Mawrth 2025. | 5.Ydi | |
| | | 6. Byddwn wedi cwblhau trefniadau i ddarparu 2 dŷ a chefnogaeth ychwanegol yn y gymuned | 6. Llithriad yn amserlen addasu'r ail dŷ - anelu i fod yn barod Mai 2025.<br>Dal yn anelu i'r safle ar gyfer un tŷ fod yn barod ar gyfer Gwanwyn 2025.<br>Cyfle wedi ddod i gydweithio efo Adra i addasu 2 dŷ ychwanegol yn Dai a chefnogaeth – i fod yn barod Mai 2025 | 6. Na | Mari Wynne Jones |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 7. Bydd gennym sicrwydd ar drefniadau rhentu llety gofal i'r dyfodol a chadarnhad a fydd y cyngor yn medru gweithredu fel landlord | 7. Wedi cwblhau | 7. Ydi | Alun Gwilym Williams |
| **Oedolion** | **Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal** | 1. Bydd system Dewis Cymru wedi'i diweddaru ar gyfer bob ardal yng Ngwynedd erbyn haf 2025 a golygwyr wedi'u hadnabod ar gyfer bob maes gwaith i gynorthwyo gyda chynnal y system. | 1. Absenoldebau staff a allweddol wedi oedi'r gwaith. Golygwyr wedi eu adnabod ar gyfer pob maes ond ddim wedi hyrwyddo Dewis ar draws Gwynedd, a bydd angen adnodd i wneud hyn dros y flwyddyn nesaf. | 1. Na | Alun Gwilym Williams |
| | | 2. Bydd chwiliwr Dewis Cymru a system therapi galwedigaethol AskSara wedi'i integreiddio i dudalennau gwefan y gwasanaethau cymdeithasol | 2. Wedi cwblhau | 2. Ydi | |
| | | 3. Bydd dewislen o ddyfeisiadau teleofal ar gael a bydd y rhain yn cael eu hyrwyddo'n eang ar y wefan, yn y cyfryngau a drwy'r timau gwaith cymdeithasol. | 3. Mae'n cael eu hyrwyddo ar wefan y Cyngor a'r timau gwaith cymdeithasol, mae angen llunio catalog 'byw' syml i gyd fynd. | 3. Ydi | |
| | | 4. Bydd polisi/cytundeb taliadau uniongyrchol wedi ei ddiweddaru, a byddwn yn rhoi'r dewis o waled rithiol ar | 4. Wedi cwblhau | 4. Ydi | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | gyfer unrhyw achosion taliadau uniongyrchol o’r newydd. | | | |
| **Oedolion** | **Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned** | 1. Byddwn wedi sefydlu trefniadau cyfathrebu a chyfarfod rheolaidd er mwyn hyrwyddo cydweithio a galluogi’r timau oedolion i deimlo fwy fel un<br><br>2. Byddwn wedi cryfhau ein systemau cydweithio i'n galluogi i ryddhau pobl o’r ysbyty yn fwy effeithlon | 1. Wedi cwblhau – y cam nesaf fydd y gwaith cyd-leoli.<br><br>2. Amserlen wedi llithro. Rydym wedi adnabod fod gallu’r systemau data cleifion ysbyty yn gyfyngedig ond bod potensial ehangach iddo a gwaith datblygu pellach yn digwydd ar hyn o bryd i ganfod y bylchau effeithlonrwydd. Bydd angen gwaith pellach i sicrhau bod y 5 TAC yn defnyddio’r sustem i adnabod cleifion sy’n wynebu oedi i ryddhau, a’r rheswm am hyn. | 1 Ydi<br><br>2 Na | Sian Edith Jones |
| | | 3. Byddwn wedi alinio ardaloedd y Timau Adnoddau Cymunedol gydag is-ardaloedd gofal cartref ac wedi dod i gytundeb gyda’r Bwrdd Iechyd ar y ffordd ymlaen o safbwynt ardaloedd y timau nyrsus cymunedol<br><br>4. Byddwn wedi datblygu trefniadau cydweithio newydd i'r timau iechyd meddwl ac wedi cynnal adolygiad o’r trefniadau rhai misoedd wedi sefydlu hefyd i sicrhau eu bod yn gadarn | 3 Wedi cwblhau<br><br>4 Wedi cwblhau | 3 Ydi<br><br>4 Ydi | Mannon Trappe |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Oedolion** | **Datblygu cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth** | 1. Bydd y gwaith datblygu adeilad newydd Dolfeurig yn mynd rhagddo erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, gyda'r bwriad o gwblhau'r gwaith erbyn Haf 2025 | 1. Derbyniwyd cadarnhad ddechrau Ionawr 2025 fod y cais am fwy o arian i ariannu datblygiad Dolfeurig gan y Llywodraeth wedi bod yn llwyddiannus, sydd yn sicrhau fod arian digonol i ariannu cost y tendr adeiladu a'r ffioedd yn eu cyfanrwydd.<br><br>Mae'r cwmni llwyddiannus (SWG) eisoes wedi cychwyn darnau o waith ar y safle, gyda'r gwaith iawn i gychwyn ym Mis Ebrill. | 1 Na | Alun Gwilym Williams |
| | | 2. Byddwn wedi penodi Cydlynydd Cyfleon Gwaith a Swyddogion Cefnogi Cyflogaeth ychwanegol, a byddwn wedi gwneud gwaith i adnabod y math a'r nifer o gyfleon sydd eu hangen er mwyn medru cynllunio sut i gyfarch hyn | 2 Wedi cyflawni | 2 Ydi | Mari Wynne Jones |
| | | 3. Bydd o leiaf 8 unigolyn sydd ddim mewn cyflogaeth ar hyn o bryd mewn cyflogaeth erbyn diwedd y flwyddyn | 3. Cynnydd graddol yn y nifer sydd mewn cyflogaeth, a nifer fawr ar y cynllun hyfforddi | 3 Ydi | |
| **Oedolion** | **Llechen Lân** | 1. Byddwn wedi cwblhau'r dadansoddiad cychwynnol a'i gyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth, a byddwn wedi gosod amserlen ar gyfer y gwaith sydd wedi'i amlygu | 1 Wedi cwblhau | 1 Ydi | Alun Gwilym Williams |

# Trosolwg o berfformiad Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant
# Ebrill 2025

| Mesur | Gwerth | Maes |
|---|---|---|
| Ydan ni wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig?* | 81% | **Pobl Hŷn ac Anableddau Corff** |
| Unigolyn sy'n aros dros 91 diwrnod am asesiad anghenion gofal | 43 | **Pobl Hŷn ac Anableddau Corff** |
| Asesiadau anghenion gofal cymdeithasol yn y mis diwethaf | 179 | **Pobl Hŷn ac Anableddau Corff** |
| Canran o oriau o ofal cartref sydd heb ei ddiwallu | 7% | **Pobl Hŷn ac Anableddau Corff** |
| Nifer sydd yn derbyn gofal cartref | 831 | **Pobl Hŷn ac Anableddau Corff** |
| Unigolion sy'n aros dros 28 diwrnod am ofal cartref | 50 | **Pobl Hŷn ac Anableddau Corff** |
| Ydan ni wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig?* | 92% | **Anableddau Dysgu** |
| Nifer wedi'u hadnabod i fod angen cefnogaeth lletya yn y flwyddyn nesaf | 12 | **Anableddau Dysgu** |
| Nifer o unigolion sydd ar y llwybr cyfleon gwaith | 114 | **Anableddau Dysgu** |
| Asesiadau anghenion gofal cymdeithasol yn y mis diwethaf | 23 | **Iechyd Meddwl** |
| Unioglyn sy'n aros dros 91 diwrnod am asesiad anghenion gofal | 0 | **Iechyd Meddwl** |
| O welyau preswyl sy'n cael eu defnyddio yn ein cartrefi gofal | 86% | **Darparu** |

Ydi'r Gwasanaeth yn llwyddo i ddiwallu'r angen?

- Gwyrdd: Ydy, yn gyson
- Oren: Ydi yn rhannol, yn anghyson neu gydag oedi
- Coch: Oedi hir neu diffyg gallu darparu



**Dylid nodi mai sampl o unigolion sydd wedi derbyn adolygiad gofal sydd yma. Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys unigolion sy'n aros am wasanaeth.*

# Trosolwg o berfformiad Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant
# Ebrill 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| O ymholiadau amddiffyn oedolion wedi'u cwblhau o fewn 7 diwrnod<br>90%<br>**Diogelu** | O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion lle mae'r perygl wedi'i reoli<br>96%<br>**Diogelu** | Nifer o bobl ar y rhestr aros am asesiad DoLS<br>356<br>**Diogelu** | Canran o ddarparwyr gofal wedi'u monitro yn ystod y 12 mis diwethaf<br>98%<br>**Sicrwydd Ansawdd** |
| Nifer mynychwyr dementia actif<br>294<br>**Cefnogi Iechyd a Llesiant** | Defnyddwyr teleofal sy'n talu'r ffi wythnosol<br>1447<br>**Busnes** | Canran o unigolion sydd yn derbyn gwasanaeth drwy daliadau uniongyrchol<br>17%<br>**Busnes** | Amcan Gorwariant Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant (*Gwybodaeth o fis Chwefror)*<br>£3.8m<br>**Cyllid** |


Ydi'r Gwasanaeth yn llwyddo i ddiwallu'r angen?

- Ydy, yn gyson
- Ydi yn rhannol, yn anghyson neu gydag oedi
- Oedi hir neu diffyg gallu darparu


# Pobl Hŷn ac Anableddau Corfforol - Sian Edith Jones

*Galluogi Oedolion Gwynedd i: "Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw"*

**Canran o adolyigadau lle y mae'r unigolyn wedi nodi ein bod wedi llywddo i'w cefnogi i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt**




**A yw'r unigolion yn teimlo eu bod wedi eu cefnogi i fedru cyflawni'r hyn sy'n bywsig iddynt?**




## Tu ôl i'r Perfformiad:


Mae nifer yr adolygiadau a gwblhawyd wedi gostwng rhywfaint erbyn heddiw oherwydd bod cynnydd yn y galw ac asesiadau o'r newydd yn cael blaenoriaeth, fe welwch hyn yn y data asesiadau. Mae problemau staffio yn parhau mewn rhai Timau.

Yn gadarnhaol, neb wedi datgan nad oeddem wedi llwyddo i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt. Mae nifer sylweddol o unigolion yn datgan iddynt gael eu bodloni yn rhannol, rhesymau yn amrywiol, yn drist ond yn gyffredin iawn mae 5 unigolyn mewn gofal preswyl yn mynegi dymuniad i ddychwelyd adref.


# Pobl Hŷn ac Anableddau Corfforol - Sian Edith Jones

*Galluogi oedolion Gwynedd i: "Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw"*

## Pa mor hir mae unigolion wedi bod yn disgwyl am asesiad anghenion gofal




## Nifer o asesiadau anghenion gofal cymdeithasol yn ystod y mis




Mae gweithwyr wedi cyflawni nifer sylweddol uwch o asesiadau gofal cymdeithasol yn ystod mis Mawrth,  y lefel uchaf o'i gymharu â llynedd, hyn yn cadarnhau'r negeseuon gan staff am y pwysau gwaith sylweddol sydd arnynt ar hyn o bryd. Mae'r cyfnod aros wedi gostwng yn sylweddol erbyn mis Mawrth, y mwyafrif yn aros am asesiad Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol erbyn hyn. Yn falch o adrodd bod llai o unigolion yn aros dros 91 diwrnod ymhob rhestr.
Un ffactor yn y gostyngiad yw'r arian 'Her 50 Diwrnod' wedi ein galluogi i ariannu gwaith Therapydd Galwedigaethol Preifat i roi sylw i'r rhestrau aros dros  Chwefror a Mawrth, gan flaenoriaethu Bangor a De Meirionnydd (15 achos). Er i ni weld effaith yr arian 50 diwrnod yma, nid dyma'r unig reswm, mae uwch sgilio Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol i asesu am offer yn cael effaith, bosib hefyd bod cael un Swyddog Gwybodaeth Cyngor a Chymorth (IAA) mewn rhai  ardaloedd (Eifionydd, Llŷn a Caernarfon) yn golygu bod sgrinio manwl a chyson sydd o bosib yn osgoi cyfeiriadau di-angen, parhau yn ddyddiau cynnar ond gobeithio gweld hyn yn parhau.


Sefyllfa gwaith Therapi Galwedigaethol yn amrywiol ar draws Gwynedd, rhai Timau Adnoddau Cymunedau (TAC) yn sefydlog a dim llawer o restrau aros, Caernarfon, Llŷn ac Eifionydd, a rhestrau aros uchel iawn yn TAC Bangor a De Meirionnydd yn sgil eu lefelau staffio presennol. TAC Bangor yn y broses o benodi ThG llawn amser ar ôl derbyn rhodd oriau ychwanegol gan TAC Caernarfon, ble roedd nifer sylweddol uwch o Therapydd dion a dim rhestr aros. De Meirionnydd wedi methu recriwtio ThG ers tro bellach a Thîm Eifionydd yn cefnogi dros dro gyda'r achosion mwyaf dwys, swydd wag ThG De Meirionnydd allan ar hysbys a phryder na fydd diddordeb eto. Nid oes gennym chwaith hyfforddeion ThG sy'n barod i gymhwyso eleni. Mae cais gan y Rheolwr Therapi i ni ystyried defnyddio asiant os yr ydym yn parhau i fethu recriwtio eleni.

Pryder arall yn y maes Therapi Galwedigaethol yw'r effaith gall sefyllfa bresennol Tîm Derwen gael ar y gwasanaeth oedolion, mae Derwen wedi colli 2 ThG yn ddiweddar, un yn barhaol ac un arall ar gyfnod mamolaeth, Rheolwr Therapi yn ceisio cynnal y sefyllfa/llwyth achos trwm yn y cyfamser, hyn yn bwysau gwaith ychwanegol sylweddol ar hyn o bryd.


# Rhestrau Aros Gofal Cartref - Sian Edith Jones

*Galluogi Oedolion Gwynedd i: "Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw"*

## Y canran o oriau gofal cartref sydd heb eu diwallu




## Niferoedd sy'n derbyn gofal cartref (melyn) a'r nifer sydd ar y rhestr aros (coch)





Ar y cyfan mae'r rhestr aros yn sefydlog, y mwyafrif o ardaloedd wedi llwyddo i ostwng i niferoedd isel iawn. Mae'r rhestrau aros yn parhau mewn rhai ardaloedd.


# Rhestrau Aros Gofal Cartref - Sian Edith Jones

*Galluogi Oedolion Gwynedd i: "Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw"*


## Nifer ar y rhestr aros am ofal cartref




## O'r bobl sydd wedi dod oddi ar y rhestr, y nifer o ddyddiau y buon nhw'n aros ar gyfartaledd




## Am ba mor hir mae unigolyn wedi disgwyl hyd yma





## Ystadegau am yr achosion sy'n cael eu tynnu o'r rhestr fesul mis

| Month End Date | Nifer | Average of dyddiau | Median of dyddiau |
|---|---|---|---|
| 30/04/2024 | 35 | 81.94 | 45 |
| 31/05/2024 | 55 | 82.22 | 55 |
| 30/06/2024 | 36 | 100.97 | 77 |
| 31/07/2024 | 58 | 75.95 | 46 |
| 31/08/2024 | 39 | 51.28 | 30 |
| 30/09/2024 | 45 | 76.51 | 37 |
| 31/10/2024 | 88 | 75.44 | 34 |
| 30/11/2024 | 46 | 61.96 | 42 |
| 31/12/2024 | 50 | 72.76 | 33 |
| 31/01/2025 | 79 | 83.74 | 47 |
| 28/02/2025 | 47 | 41.44 | 18 |
| 31/03/2025 | 56 | 86.00 | 36 |
| **Total** | **577** | **74.69** | **40** |

# Darparu - Rhion Glyn

*Galluogi oedolion Gwynedd i "fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw"*




## Tu ôl i'r perfformiad

Mae'r gyfradd llenwi wedi codi i 86% ym mis Mawrth ac wedi cyrraedd y lefel uchaf ers adrodd y wybodaeth yma i'r cyfarfodydd herio perfformiad. Y prif resymau dros y cynnydd yw'r cyfraddau llenwi Hafod Mawddach, Y Bermo (86%) a Plas Pengawith, Llanberis (87%).

- **Hafod Mawddach** - Er bod defnydd wedi bod yn cael ei wneud o'r gwlâu yn yr uned dementia newydd dros y misoedd diwethaf, fe agorwyd yr uned fel uned dementia ddechrau mis Mawrth.
- **Plas Pengwaith** - Mae'r cartref wedi llenwi yn ddiweddar, a hynny ar ôl cyfnod o weld y galw am y gwasanaeth yn isel yn yr ardal. Noder mai gwlâu preswyl cyffredinol sydd ar gael yn y cartref.

Adroddwyd yn y cyfarfod diwethaf y bwriad i agor yr uned dementia ym Mhlas Hedd yn ystod mis Mawrth. Cafwyd ymweliad gan yr arolygaeth gofal ar y 21/02/25 ble cafwyd rhestr o faterion oedd angen sylw cyn gallu agor yr uned. Noder fod y Gwasanaeth Eiddo wedi comisiynu contractwr i roi sylw i'r materion hyn a bod hynny'n digwydd yn ystod wythnos gyntaf mis Ebrill.

## Mesur datblygol: Lefelau staffio a lefelau anghenion

Mae'r tabl hwn yn dangos lefelau staffio fesul cartref ar y 31.03.25, gyda'r golofn 'Lefelau Staffio' yn amlygu'r bwlch staffio yn y cartref wrth ystyried swyddi gwag neu swyddi ble mae aelodau staff i ffwrdd yn sâl tymor hir. Nid yw'r wybodaeth yn cynnwys lefelau staff achlysurol, salwch tymor byr neu sefyllfaoedd ble mae staff wedi eu harddel o'r gwaith.

Dros y misoedd nesaf bwriedir ychwanegu tuag at y wybodaeth yma trwy gynnwys lefelau anghenion fesul cartref. Mi fydd oll o'r cartrefi yn defnyddio methodoleg newydd ar gyfer gwneud hyn o Ebrill 2025 ymlaen.


Trwy ystyried lefelau staffio a lefelau anghenion ein cartrefi gofal credir y bydd yn helpu rhoi darlun llawnach wrth ystyried a monitro ein cyfraddau llenwi.

| | Cyfradd Llenwi | Lefelau staffio |
|---|---|---|
| Plas Hedd | 64% | 87% |
| Plas Ogwen | 92% | 86% |
| Plas Pengwaith | 87% | 90% |
| Plas Maesincla | 100% | 100% |
| Plas Gwilym | 88% | 96% |
| Plas Hafan | 93% | 96% |
| Plas y Don | 77% | 84% |
| Bryn Blodau | 74% | 90% |
| Cefn Rodyn | 95% | 97% |
| Hafod Mawddach | 86% | 95% |
| Llys Cadfan | 97% | 84% |


# Anableddau Dysgu - Mari Wynne Jones

*Galluogi Oedolion Gwynedd i: "Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw"*

**Canran o adolygiadau lle y mae'r unigolyn wedi nodi ein bod wedi llwyddo i'w cefnogi i gylfawni'r hyn sy'n bwysig iddynt**




A yw'r unigolion yn teimlo eu bod wedi eu cefnogi i fedru cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt?




## Tu ôl i'r perfformiad:


Mae nifer yr adolygiadau sydd wedi eu cynnal wedi cynyddu ychydig ers adrodd y tro diwethaf ac yn gymharol gyson efo cyfartaledd adolygiadau ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf.

Fel sydd wedi ei nodi eisoes, mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar adolygiadau manwl cynlluniau llety a chefnogaeth ac o ganlyniad yn cymryd mwy o amser i'w cwblhau. Allan o 26 adolygiad, dim ond 1 person sydd wedi nodi nad ydynt wedi gallu cyflawni'r hyn sydd yn bwysig iddynt yn llawn. Mae hyn oherwydd ei rhwystredigaeth am arafwch y trefniadau i'r unigolyn allu byw yn annibynnol yn y gymuned.

# Anableddau Dysgu - Mari Wynne Jones

*Galluogi Oedolion Gwynedd i: "Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw"*

## Nifer o unigolion ag anabledd dysgu sydd ag anghenion lletya o fewn y flwyddyn nesaf





### Tu ôl i'r perfformiad:

Nid oes newid wedi bod yn nifer yr unigolion ar y rhestr lletya ers adrodd y tro diwethaf. Serch hyn, mae sawl datblygiad tai ar y gweill ar hyn o bryd.

Yn yr adroddiad diwethaf, nodwyd fod gan ddau berson angen llety brys oherwydd bod y landlord preifat wedi penderfynu dod ar gytundeb i ben. Yn dilyn trafodaethau cadarnhaol gyda cymdeithas tai, mae'r gwasanaeth wedi dod i gytundeb gyda nhw i ddatblygu dau lety cefnogol fydd yn sicrhau llety addas i'r ddau person penodol a lle i ddau unigolyn arall sydd ar hyn o bryd ar y rhestr aros. Hyderir y bydd o leiaf un o'r tai yn barod erbyn diwedd Mai.

Mae bwriad i ddatblygiad yn ardal Penrhyndeudraeth fod yn barod erbyn yr haf fydd yn darparu llety a chefnogaeth i dri person ac mae'r broses dendro ar gyfer darparwr cefnogaeth wedi dechrau ar gyfer cynllun llety a chefnogaeth yn ardal Pwllheli sydd yn anelu i fod yn barod erbyn yr Hydref.

## Nifer o unigolion gydag anabledd dysgu sydd mewn cyfleon gwaith




### Tu ôl i'r perfformiad:


Fel mae'r tabl yn ei ddangos, mae lleihad bychan yn nifer yr oedolion sydd yn rhan o'r cynllun cyfleoedd gwaith anabledd dysgu. Mae 6 cyfeiriad newydd wedi bod i'r cynllun ers dechrau'r flwyddyn ond eraill wedi tynnu'n ôl o'r cynllun dros dro oherwydd salwch a materion teuluol. Bydd yn ddrws yn agored i'r unigolion yma ail ymuno a'r cynllun os ydynt yn dymuno i'r dyfodol.

Mae'r cydlynydd yn parhau i hyrwyddo'r cynllun efo'r ysgolion a cholegau arbenigol. Yn fewnol, mae'r cynllun cludo cadeiriau arbenigol wedi dechrau ac mae nifer o unigolion wedi cwblhau hyfforddiant profi offer trydanol gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth profi ar gyfer adrannau'r Cyngor.


# Iechyd Meddwl - Mannon Trappe

*Galluogi oedolion Gwynedd i: "Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw"*

## Pa mor hir mae unigolion wedi bod yn disgwyl am asesiad anghenion gofal




## Nifer o asesiadau anghenion gofal cymdeithasol yn ystod y mis





Mae'r nifer o asesiadau anghenion gofal cymdeithasol wedi bod yn gyson gyda unigolion yn disgwyl am llai o gyfnod am asesiad yn gyffredinol.

Mae gwaith yn parhau i gael ei wneud i gael trefn ar restr unigolion sydd o dan a.117 o'r ddeddf iechyd meddwl – 233 hyd yma. Mae'n ddyletswydd bod adolygiad blynyddol ar y cyd hefo Iechyd i bob achos ond mae hyn yn heriol ar hyn o bryd gan fod Iechyd yn nodi nad oes ganddynt y staff i fod yn cynnal yr adolygiadau.

# Llesiant - *Cefnogi pobl i fyw bywyd da yn eu cymuned* - ***Rheolwr - Alun Gwilym Williams***

**Nifer o unigolion sydd wedi mynchu sesiynau Dementia Actif mesul mis**




## Dyfyniadau:

*"I've got rid of my raising recliner chair now as I feel like I don't need it, I can get up from the chair and the sit to stands have really helped me with that."*

*"To Emma and Dementia Actif team. Thank you so much for all you have done for Biddy and I over the last few years. Your wonderful heartfelt welcome, your kindness, enthusiasm and creativity meant that her dementia journey was one of happiness and adventure, creating so many special memories of her, from dancing to outdoor activities and of course the everyday benefits of the classes and the paned and chat afterwards"* – Gofalwr.

*"Thank you so much for putting me in touch with Social Services. They have been wonderful. I didn't want to call them after all the troubles I had looking after my own parents, but my daughter phoned them, and they have arranged for someone to come and cook my evening meal and other things. It has really lifted me because honestly, I felt suicidal. Now it has really lifted my spirits and they have shown me a shop in Dolgellau that I can go to anytime I like if I want to chat to someone. I have always had learning difficulties so I struggle to fill out forms, but the lady did it all for me!"* – Aelod dosbarth Dementia Actif Fairbourne.

*"I would like to say big thank you for allowing me to attend the virtual dementia tour today. I would certainly recommend the course to any family member who has a loved one with a dementia diagnosis and actually for anyone as we sadly all encounter people on the journey in daily life. I found the information booklets and the discussions within the group very helpful and I now know who to ask for help when I need it and where to find that help. It makes me feel that I'm not in this on my own"* - Family Carer

*"An extremely stimulating experience that certainly gave everyone food for thought. It seemed that everyone got something different from the hands on experience and the observation. The post discussion was enlightening with many picking up nougats of knowledge and information that they could use in their respective roles. For me, I'm now much more conscious and aware of everything I do around my husband. Everyone in a caring role should experience this."* - Family member


## Tu ôl i'r Perfformiad


Roedd y niferoedd mynychwyd yn gyson ar gyfer y dosbarthiadau ym mis Chwefror & Mawrth. Mae'r Tîm Dementia Actif wedi trefnu hyfforddiant Rhith daith Dementia Gwynedd gyda chwmni "Training2Care". Roedd gwadd i aelodau'r teulu gofalwyr anffurfiol a staff gofal i gymryd rhan yn yr hyfforddiant hefyd.

Rydym wedi bod yn cynnal Sesiynau Ffrindiau Dementia I baratoi ar gyfer Twrnamaint Boccia Pontio'r Cenedlaethau ym mis Ebrill. Aeth aelodau staff Dementia Actif allan i 9 ysgol i wneud sesiynau Ffrindiau Dementia. Y pwrpas oedd codi ymwybyddiaeth am ddementia efo'r disgyblion ac i gyflwyno'r Twrnamaint Boccia iddynt.

# Diogelu - Mannon Trappe

*Diogelu oedolion sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth sydd mewn perygl o gamdriniaeth ac/neu esgeulustod.*








## Tu ôl i'r perfformiad:

Bydd Gweithiwr Cymdeithasol profiadol yn ymuno â'r tîm diogelu rhan amser yng nghanol mis Ebrill, i fod yn cynorthwyo i wneud yr ymholiadau cychwynnol. Bydd cynyddu capasiti y tîm yn ein cynorthwyo i gwblhau'r ymholiadau o fewn yr amserlen statudol. Byddwn yn cyfarfod yn fuan i benderfynu sut fydd y gwaith yn cael ei rannu ond mae'n debyg na fydd achosion adnabyddus angen mynd i'r ardaloedd.

# Diogelu - Mannon Trappe

*Diogelu oedolion sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth sydd mewn perygl o gamdriniaeth ac/neu esgeulustod.*





Mae cyfarwyddyd wedi mynd allan i'r Arweinyddion Tîmau er mwyn sicrhau bod y ffurflenni diogelu yn cael eu cau ar ddiwedd y broses. Bydd hyn yn cau y bwlch ac yn sicrhau nad yw'r safonau yn disgyn.


# Diogelu - Mannon Trappe

*Diogelu oedolion sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth sydd mewn perygl o gamdriniaeth ac/neu esgeulustod*

Nifer ar y rhestr aros am asesiad DoLS a pha mor hir maent wedi bod yn aros - fesul mis




Nifer ar y rhestr aros o'i gymharu â'r nifer sydd ag awdurdodiad DoLS cyfredol - fesul mis




**DoLS = Deprivation of Liberty Safeguards**

## Tu ôl i'r perfformiad:


Yn dilyn cyflwyno bid lwyddiannus, mae hysbyseb allan i gyflogi 2 Asesydd Budd Gorau.

Rydym hefyd wedi derbyn cadarnhad gan Lywodraeth Cymru bod arian grant am £114,000 ar gael i ni ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. Bydd £13,500 o'r arian yma'n cael ei ddefnyddio i gyllido hyfforddiant a byddwn yn parhau i ddefnyddio'r gweddill i gomisiynu asiantaeth i ymgymryd â'r gwaith asesu.


# Sicrwydd Ansawdd - Mannon Trappe

*Sicrhau bod y gofal sy'n cael ei gomisiynu yn ddiogel ac o ansawdd.*

## Nifer o ddarparwyr sydd wedi eu monitro yn y 12 mis diwethaf (ffigwr cronnus)




## Natur y gweithgareddau monitro




## Tu ôl i'r perfformiad


Yn y chwarter diwethaf, mae’r Swyddogion Sicrwydd Ansawdd wedi parhau i fonitro cartrefi preswyl a chyd-weithio ag Iechyd i fonitro'r cartrefi nyrsio.


Mae un ddarpariaeth llety a chefnogaeth yn parhau i fod o dan y drefn pryderon cynyddol. Mae’r Swyddogion yn cynnig cefnogaeth i’r rheolwr i’w galluogi i weithio ar y gwelliannau sydd eu hangen gyda'r gobaith o ddatrys y materion sy’n achosi pryder. Mae’r Swyddogion hefyd yn cefnogi cartref preswyl sydd hefyd o dan y drefn pryderon cynyddol; rydym yn parhau i fod yn obeithiol y bydd y sefyllfa hon yn un dros dro ond mae embargo ar fynediadau newydd ar y ddwy ddarpariaeth. Mae'r gwaith o fonitro gofal cymunedol yn symud yn ei flaen, gyda gweithwyr proffesiynol yn rhoi adborth ar eu profiadau gyda'r darparwr, ac mae ymweliadau â defnyddwyr gwasanaeth yn y gymuned yn cael eu cynnal i gasglu eu hadborth nhw.

Byddwn yn dechrau’r gwaith o fonitro pob lleoliad tai a chefnogaeth ym mis Ebrill. Bydd hyn yn cynnwys y prif swyddfeydd, a phob un o'r tai y mae unigolion yn byw ynddynt

# Busnes - Alun Gwilym Williams

*Darparu arweiniad a chefnogaeth busnes i'r gwasanaethau cymdeithasol*




Tu ôl i'r Perfformiad:

Mae bron i ddwy ran o dair (tynnu am 1000) o ddyfeisiadau teleofal Gwynedd wedi eu trosglwyddo i ddyfeisiadau newydd digidol bellach. Mae oedi i'r amserlen yn rhannol oherwydd capasiti'r tîm gosod. Byddwn yn gweithio ar ddatrysiad fel bod modd cwblhau'r trosglwyddiad cyn gynted â phosib, ac wrthi yn penodi prentis i'r tîm gosod. Mae'r tîm wedi bod yn mynd allan i farchnata a hyrwyddo'r gwasanaeth yn rhagweithiol, ac yn mynd i fod yn rhan o'r digwyddiadau 'tai ar daith' ar y cyd gyda'r Adran Tai ac Eiddo dros y misoedd nesaf, yn ogystal â mynd allan i'r hybiau ar draws Gwynedd i sicrhau fod y wybodaeth ar gael i'w rannu gan yr hybiau yn lleol.

Tu ôl i'r Perfformiad:

Mae'r canran (a'r niferoedd) o becynnau taliadau uniongyrchol wedi parhau yn sefydlog, gyda'r niferoedd wedi cynyddu i 229 erbyn diwedd Mawrth. Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae pwyslais ar hyfforddiant dros y misoedd nesaf, mewn cydweithrediad efo'r tîm datblygu gweithlu mewnol. Gwyddom fod canran uwch o daliadau uniongyrchol o fewn rhai timau ac mewn rhai ardaloedd yn benodol, ac mae bwriad targedu'r hyfforddiant a'r hyrwyddo at yr ardaloedd a'r timau hynny lle nad oes defnydd wedi bod yn hanesyddol i gychwyn.